

ECO'R WYDDFA

Rhif 212

MAI 1995

Pris 25c



Ceri Griffiths a Buddug Wakeham, dwy aelod o staff y Ganolfan newydd.

PENCAMPWYR CYMRU

CANOLFAN CROESO NEWYDD I LANBERIS



Aelodau Band Deiniolen yn dilyn eu llwyddiant ysgubol yn rownd gyn-derfynol Pencampwriaeth Bandiau Prydain.

Profodd Band Deiniolen lwyddiant arbennig yn ddiweddar drwy gipio un o bencampwriaethau pwysicaf y byd Bandiau Pres gan ennill y cyfle i deithio i Lundain i gystadlu ym Mhen-campwriaethau Prydain yn ystod yr hydref.

Cawsom lawer cyfle i longyfarch bandiau yr ardal ar dudalennau'r Eco dros y blynyddoedd diwethaf ac unwaith eto daeth un ohonynt, sef Band Deiniolen, â chlod arbennig i'r Fro.

Ar ddydd Sadwrn, 27 Ebrill, teithiodd y Band i Aberystwyth i gystadlu yn rownd gyn-derfynol Pencampwriaeth Bandiau Prydain (Adran 3). Roedd 15 o fandiau eraill o bob cwr o Gymru yno yn cystadlu yn eu herbyn ac yn ôl yr hyn a ddeallwn dyma'r tro cyntaf i fandiau de a gogledd Cymru gystadlu yn erbyn ei

gilydd yn rownd gyn-derfynol y bencampwriaeth yma. Heb os, mae lle i'w hystyried bellach yn Bencampwriaeth Bandiau Cymru.

Pan gyhoeddwyd y marciau ar ddiwedd y cystadlu Band

Deiniolen ddatth i frig Adran 3 ac mae'n siŵr y bu cryn ddathlu ar y daith adref. Cynhelir y rownd derfynol yn Llundain ar 21 Hydref ac yn ôl pob sôn bydd strydoedd Deiniolen bron yn wag ar y diwrnod hwnnw gan fod cymaint o gefnogwyr yn awyddus i fynd yno i'w cefnogi! Cawn gyfle eto i ddymuno'n dda iddynt ond y cyfamser rhaid eu longyfarch yn galonnog ar eu camp a'u llwyddiant.

A OES HEDDWCH?



Ar ôl treulio cryn amser yn cyfrannu'n sylweddol at y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon trodd Dick Spring, un o wleidyddion enwocaf Iwerddon, ei sylw yn ddiweddar at Gantwion Elidir o ardal Bethel. Pam meddech chi? Cewch wybod ar dudalen 11.

**PENCAMPWYR
PÊL-DROED
LLONGYFARCHIADAU
I DÎM PÊL-DROED
DEINIOLEN
PENCAMPWYR
CYNGHRAIR SAIN
1994-95**

Ddydd Mercher, 26 Ebrill, cynhaliwyd agoriad swyddogol Canolfan Croeso Llanberis. Agorwyd y Ganolfan gan Tony Lewis, Cadeirydd Bwrdd Croeso Cymru a gyrhaeddodd mewn car clasurol gan fod yr agoriad yn cyd-ddigwydd ag ail flwyddyn Rali Ceir Clasurol Lluniaidd, ym Mharc Padarn, ar Ebrill 29 a 30.

Wrth groesawu datblygiad y Ganolfan newydd, dywedodd Maer Cyngor Arfon, Mr Brian Jones, 'Prif nod y Cyngor dros symud i'r Stryd Fawr yw denu mwy o ymwelwyr i'r rhan yma o Lanberis a'u hannog i dreulio mwy o amser yn mwynhau cyfleusterau'r Stryd Fawr.'

Ar ôl edrych ar sawl adeilad yn y pentref, penderfynwyd ar 41A Stryd Fawr, a'i addasu yn Ganolfan a fyddai'n cyfarfod â meini prawf canllawiau dylunio'r Bwrdd Croeso, gan gynnwys darpariaeth cyfleusterau i'r anabl.

Datblygwyd y Ganolfan trwy gydweithrediad rhwng Adran Gynllunio Cyngor Arfon, Twristiaeth Gogledd Cymru a Chymdeithas Cyhoedduswydd Llanberis.

Arianwyd y Ganolfan ar y cyd gan Gyngor Arfon a Bwrdd Croeso Cymru gyda chyfraniad gan Gymdeithas Cyhoedduswydd Llanberis.

Comisiynwyd cwmni pensaernïaeth partneriaeth Ap Thomas, o Fangor, i fod yn gyfrifol am reoli'r cytundeb o addasu'r adeilad, a'r contractwr oedd Mr Cledwyn Thomas o Ddeiniolen. Dodrefnwyd y Ganolfan gan Opto International a bu Twristiaeth Gogledd cymru sy'n rheoli'r Ganolfan yn gyfrifol am y gwaith gorffenedig.

Agorodd y Ganolfan ei drws i'r cyhoedd ddydd gwener y Groglith, 14 Ebrill 1995, ac wedi cael cyfnod cyntaf prysur iawn, disgwylir cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau a'r nifer o bobl a fydd yn ymweld â'r Ganolfan drwy'r tymor sydd ar ddod.

Cofiwch bod gwybodaeth am ddiwyddiadau lleol sydd o ddiddordeb i bobl yr ardal hon yn y Ganolfan hefyd.

ECO'R WYDDFA

Rhif 212
MAI 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 1
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAI 22
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MEHEFIN	MEHEFIN 1	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
GORFFENNAF	MEHEFIN 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am'eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

DIOLCH AM YR ANTUR

Annwyl Olygydd,

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Mr R. Gwynn Davies a holl staff Antur Waunfawr am y llyfr a gyhoeddwyd ganddynt sy'n sôn am sefydlu'r Antur, a'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael yno i bobl â nam meddwl.

Cyn dod i fyw i'r Waun roeddem yn gweld pobl ifainc â nam meddwl yn cerdded y strydoedd neu yn cael eu cadw yn eu cartrefi heb ddim diben i fywyd.

Mae Antur Waunfawr wedi dangos y ffordd i ardaloedd eraill ac fe ddylai Cymru fod yn falch ohonynt.

Diolch i drigolion yr ardal am fod mor barod i gefnogi'r fenter am y deng mlynedd ddiwethaf.

Diolch yn fawr.

Yn gywir iawn,

CYRIL a JANET SMITH
Rhoslan, Waunfawr

O.N. gweler yr adroddiad ar dudalen 10 o'r rhifyn hwn am y dathlu a fu yn yr Antur.

BEDYDDIO'R CYNGOR

At y Golygydd:

Syr,

Yr ydym newydd ethol Cyngor Unedol newydd sbon. Ysgrifennaf, gan hynny, cyn iddo ymgynnull am y tro cyntaf, er mwyn gofyn beth fydd enw'r Cyngor newydd hwnnw. Mae hynny yn fater o bwys i bob un ohonom. Mae'n amlwg fod yr enw Sir Gaernarfon-Sir Feirionnydd / Caernarfonshire-Merionethshire yn llawer rhy glogyrnog a lletchwith. Felly, hefyd, yr enw Arfon-Dwyfor-Meirionnydd, neu unrhyw amrywiaeth ar lond ceg o enw o'r fath.

Ymddengys mai'r dewis ymarferol yw naill ai 'Gwynedd' neu 'Eryri'. O'r ddau, rwy'n awgrymu mai 'Gwynedd' yw'r dewis gorau. Mae'n wir fod 'Gwynedd' arall yn dal i fodoli, fel y gellid cymysgu rhwng y ddau ar y dechrau — ond ar ôl blwyddyn, ni fyddai'r anhawster

hwnnw yn bodoli mwyach. Mae'r enw 'Gwynedd' eisoes yn adnabyddus, fel enw daearyddol ac fel cyfeiriad post. Buasai dewis enw arall yn gorfodi'r rhai hynny ohonom sy'n argraffu papur sgrifennu a dogfennau eraill i ailargraffu unwaith yn rhagor — yr ydym newydd orfod ysgwyddo costau argraffu unwaith yn barod eleni; a hynny oherwydd y newid diweddar yn y côd teleffon.

Y fantais fawr arall sydd i 'Gwynedd', rhagor nag 'Eryri' yw nad oes modd ei gyfieithu. Erys 'Gwynedd' pa iaith bynnag a arferir; a gŵyr pawb, eisoes, sut i'w ynganu. Ar y llaw arall, mae rhai o blaid yr enw 'Eryri' yn Gymraeg, ond 'Snowdonia' yn Saesneg (er na fedraf ddirnad pam y dylid chwilio am enw Saesneg o gwbl). Gan hynny, gallai 'Eryri/Snowdonia' arwain at ddadlau a checru diddiwedd a diangen. Byddai mabwysiadu 'Gwynedd' yn osgoi hynny yn gyfan gwbl.

Os ydych yn cytuno, awgrymaf mai syniad da fyddai i chi ddweud hynny wrth eich Cyngorwyr newydd. Canys dyma'r union bobl a fu o gwmpas eich tai yn ddiweddar, yn wên deg i gyd, yn ysgwyd llaw, yn curo cefn, ac yn rhoi sws i'r babi. Ewch i'r afael â hwy ynghylch y mater cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Yn gywir,

ROBYN LEWIS
'Dwyrdd', Rhodfa'r Môr,
Nefyn, Pwllheli, Gwynedd LL53 6EB

CYMDEITHAS SIOE FRENHINOL
AMAETHYDDOL CYMRU
— ADRAN ARFON —

CYNHELIR SÊL CIST CAR

YM MART BRYNCIR

BOB DYDD SADWRN

YN CYCHWYN

29 EBRILL 1995

DOWCH YN LLU

£5 POB CAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

Alwyn a Sarah Jones


RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

PŴER YR ORIEL



Adeilad yr Oriol yn Llanberis.

Beth fydd dyfodol yr adeilad hwn yn awr tybed?

Gan fod Canolfan Croeso Llanberis wedi'i symud i'r Stryd Fawr — ac mae 'croeso' i hynny gan mai yng nghanol y dref neu bentref y dilid lleoli canolfannau o'r fath, mae'n gwneud i rhywun feddwl beth ddaw o'r adeilad hardd hwn.

Mae yna si ar led y bydd yr Oriol sydd wedi'i lleoli yn yr adeilad yn cau . . . beth wedyn . . . swyddfa ac arddangosfa Ynni Cymru yn unig?

Clywir hefyd ei bod yn fwriad i fuddsoddi cryn dipyn o arian yn Amgueddfa'r Chwarel fel ei bod wedyn yn arddangosfa 'manicured' i'r twristiaid, gan ei bod yn rhy fler ac anniben ar hyn o bryd. Ydi, mae'n rhaid cael y lle i gydymffurfio â rheolau a safonau diogelwch, ond a welwyd glofa neu chwarel

daclus? Ai'r bwriad yw tacluso'r lle er mwyn arddangos gweithiau Tunncliffe, Monet neu Kyffin Williams yn Amgueddfa'r Chwarel wedi i'r Oriol gau?

Clywir cwynion hefyd fod yn rhaid bellach i blant lleol dalu'r tâl mynediad i'r arddangosfa oherwydd nad yw'r 'sir' yn cyfrannu tuag at y costau. Gwarth.

Y cwestiwn mawr yw hwn . . . beth oedd pwrpas gwreiddiol yr Oriol yn Llanberis? O edrych yn ôl, gan sylweddoli yr hyn sy'n digwydd yn awr, oni fyddai wedi bod yn ddoethach lleoli'r Oriol hon yn Neiniolen, Dinorwig, Brynrefail, Pen-llyn, neu Gwm-y-glo?

Ffoniwch i ofyn . . . ac fe etyb y sawl sydd wrth y switsfwrdd . . . 'The Power of Wales'.

Tybed?

Cwmni Drama Llanberis



Aelodau'r cwmni fu'n fuddugol yn Wyl Ddrama y Groeslon gyda Eirig Wyn, awdur y ddrama 'Un Arch i Blant y Cwm'.

Mae Cwmni Drama Llanberis yng nghanol tymor prysur arall. Bu'r Cwmni yn cystadlu yn yr Wyl Ddrama a gynhaliwyd dan nawdd Eisteddfod y Groeslon. Llwyddodd y Cwmni i ennill y wobwr gyntaf ynghyd â Thlws John Gwilym Jones. Cyflwynwyd drama Eurig Wyn, 'Un Arch i Blant y Cwm' yn y gystad-leuaeth.

Bu'r Cwmni yn llwyddiannus yng Ngŵyl Ddrama Eisteddfod Môn hefyd, lle cafwyd y drydedd wobwr gyda'r ddrama 'Gymerwch

Chi Baned?'

Bydd y Cwmni yn cyflwyno'r ddwy ddrama uchod yn Theatr Fach Gorffwysfa yn Llanberis, nos Lun, 15 Mai a nos Fercher, 17 Mai. Rhennir elw'r ddwy noson rhwng y Cwmni ac Adran Bentref Yr Urdd, Llanberis.

Gyda llaw, bydd Tlws Goffa John Gwilym Jones i'w weld yn ffenestr siop 'Esgidiau Glen' yn ystod pythefnos cyntaf mis Mai. Llongyfarchiadau i'r Cwmni ar ei lwyddiant, a dymuniadau gorau am lwyddiant pellach.

ARLUNYDD Y NANT



Selwyn Davies yn dangos un o'i dirluniau trawiadol.

Mae un o arlunwyr prysuraf bro'r Eco yn byw a gweithio yn Nant Peris. Mae Selwyn Davies, 1 Tanybryn, ond sy'n wreiddiol o Drefriw yn Nyffryn Conwy, yn arbenigo mewn darlunio mewn olew luniau o awyrennau a hofrenyddion gyda ychydig bach o olygfeydd lleol. Dechreuodd arlunio golygfeydd rhyw ugain mlynedd yn ôl ond yn 1990, gyda dathlu hanner can mlynedd y Rhyfel Byd, y dechreuodd ei ddiddordeb mewn arlunio awyrennau. Treuliodd bum mlynedd gyda'r Awyrlu yn ymdrin ag awyrennau cyn hynny.

Gweithiwr ffatri yw Selwyn ac mae'n aelod o dim achub Llanberis. Mae'n briod a chanddo dri o blant yn eu harddegau. Ar hyn o bryd mae o'n brysur yn arlunio yr awyren 'Tiger Moth'.

Os oes gan rywun ddiddordeb mewn prynu rhai o luniau Selwyn, neu os y gall arlunio awyren o'ch dewis chwi, mae croeso i chwi alw yn ei gartref neu drwy ffonio Llanberis 871434.

TAITH SARN HELEN

Yn y rhifyn diwethaf soniwyd fod dau o ddarlunwyr yr Eco, Mr a Mrs Seiriol Owen o Fethel, yn bwriadu cerdded yr hen ffordd Rufeinig o'r Gogledd i'r De er mwyn codi arian at achos da. Bellach cawsom adroddiad ganddynt am eu taith hyd yn hyn. Diolch hefyd i'r holl blant a ymatebodd i'r gystadleuaeth. Yr enw cyntaf o'r het, ac wedi ateb yn gywir mai Moridunum oedd yr enw rhufeinig am Gaerfyrddin oedd: Rhian Williams, Arfon House, Bethel. Llongyfarchiadau Rhian mai tocynt £5 ar y ffordd.

Hyd yma rydym wedi cerdded tua 50 milltir sy'n gadael tua 100 milltir arall i'w cwblhau. Y Sadwrn cyntaf cerddwyd tua 15 milltir o Gaerhun (Canovium), yn Nyffryn Conwy heibio Bont Newydd, Llyn Cowlyd a Maen Tri Chwmwd i Gaer Llugwy, yr ochr arall i'r afon Llugwy ger Capel Curig.

Yr ail Sadwrn cerddwyd o Gaer Llugwy tua'r de-orllewin i Ddolwyddelan, trwy Cwm Penamen a throsodd i chwarieli Cwt y Bugail a'r Manod, y Bont Newydd sydd ar y ffordd i Ffestiniog ac i Domen y Mur a Thrawsfynydd.

Y trydydd dydd Sadwrn o Drawsfynydd trwy Goedwig y Brenin i'r Ganllwyd ac yna y llethrau ar y dde i'r A470 i Llanelltyd — llwybr troed hyfryd — i Ddolgellau. Wedyn dringo caled am tua dwyawr tua'r de o Ddolgellau nes dod i olwg pen uchaf Tal-y-llyn.

Wedi cwblhau hyn gallwn gydymdeimlo yn fawr ag amaethwyr yr ucheldir yng Ngwynedd oherwydd effaith y gwlybanaeth y gaeaf a'r gwanwyn o dan draed.

BETI A SEIRIOL (Bethel)



Argraffu a Ffotogopio Lliw Luniau ar gyfer pasport Crysau-T Gwasanaeth Dylunio Pen Llythyrau, Cardiau Busnes ac ati, Ffotograffiaeth . . . a llawer mwy

48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn/Ffacs: 870200

LLANBERIS:
DATHLU DIWEDD
YR AIL RYFEL BYD
(V.E. a V.J.)

Dydd Llun, 8 Mai 1995

CYNHELIR GWASANAETH
WRTH Y GOFEB

am 2 o'r gloch

Gwasanaethir gan:
Y Parchedig Philip Hughes
Y Parchedig Gwynfor Williams

CYNGERDD

YN EGLWYS PADARN SANT
am 6.30 p.m.

gyda:

CŌR MEIBION DYFFRYN PERIS
LLEISIAU LLIWEDD
RHIAN OWEN
TIMOTHY WARD
DILYS WILLIAMS
JOHN HUW HUGHES

MYNEDIAD RHAD AC AM DDIM
CROESO CYNNES I BAWB

COFIO CYNAN

(1895-1970)

Ddiwedd Mai eleni cynhelir wythnos o gyfarfodydd ym Mhwellheli i ddathlu canmlwyddiant geni'r bardd-bregethwr a'r eisteddfodwr adnabyddus, Cynan. Yn yr erthygl isod mae Rol Williams yn sôn am gyfnod hir Cynan fel tiwtor dosbarthiadau nos yn ardal Eco'r Wyddfa.

Bron i ddeugain mlynedd yn ôl bellach, ynghanol y pumdegau, cysylltais â swyddfa Addysg y Gweithwyr ym Mangor i holi a oedd modd cael Cynan yn ddarlithydd 'dosbarth gyda'r nos' yn y Waunfawr. O'm rhan fy hun roeddwn yn dra awyddus i gario 'mlaen gydag astudiaethau ar wahanol agweddau o lenyddiaeth Gymraeg gan fy mod wedi cwblhau pum mlynedd hynod ddifyr gyda Meuryn yng Nghaernarfon. Sioc annisgwyl, ond tra phleserus, oedd derbyn gair gan Mr C. E. Thomas o Fangor yn cadarnhau fod modd cael Cynan ar yr amod fy mod yn gwarantu y nifer angenrheidiol o aelodau oedd yn barod i ymaelodi am dair blynedd mewn dosbarth tiwtorial. Ni fu hynny yn drafferth.

Cychwynwyd ar nosweithiau Mawrth hynod o ddifyr yn ysgol y Waunfawr, er rhaid cyfaddef i mi gael peth siom wrth i un neu ddau wrthod yn lân ac ymuno, gan roi rheswm hollol anheg ac anghywir . . . 'Na, na, mae o yn rhy fombastig gen i o lawer'. I'r rhai a oedd yn adnabod y bardd, gŵr hollol i'r gwrthwyneb oedd Cynan fel y byddai pob un fu'n aelod o'i ddsbarthiadau yn tystio rwy'n siŵr. Yn nhreigladd y blynyddoedd ofnaf bod yr helyw o aelodau y dosbarth hwnnw bellach wedi ein gadael.

Cofiaf, pan yn blentyn ym Mrynrefail, fel y byddai Cynan yn dod yn flynyddol i bregethu i'r capel lleol gan fod perthynas iddo yn byw yn Rhesdai Orwig, sef Evan Owen. Onid aelod o'r teulu hwn oedd 'Megan' yng ngerdd Cynan 'Anfon Nico'? Gyda llaw, Evan Owen oedd un o'r rhai cyntaf i gael radio (o'i wneuthuriad ei hun rwy'n credu) yn y pentref ac âi fy nhad yno i wrando ac i ryfeddu at y ddyfais newydd a gwyrthiol honno. Er nad oeddwn ond bachgen ysgol bryd hynny gwnaeth Cynan argraff ddofn arnaf gan iddo rhoi cymaint o fynegiant wrth ddarllen yr emynau. Edrychwn ymlaen felly i fod yn aelod o'i ddsbarth — ac ni'm siomwyd.

Arwydd bendant o'i boblogrwydd fel darlithydd oedd na fu i neb ymadael â'r dosbarth yn ystod y pum mlynedd y buom yn trafod sawl testun llenyddol. Roedd ganddo'r bersonoliaeth i gadw diddordeb hyd yn oed pan yn trafod ambell i destun gweddol anniddorol. Agwedd arall o'i bersonoliaeth oedd ei bryder pan fyddai aelod yn absennol oherwydd anhwylder . . . 'Mae'n ddrwg gen i glywed . . . cofiwch fi ati'. A'i gwestiwn cyntaf ar y nos Fawrth ganlynol fyddai, 'Oes rhywun yn gwybod sut mae Mrs Davies?' Ac fe wyddai pawb fod ei bryder yn ddiffuant.

Daw llu o atgofion i'r cof wrth

reswm. Teledu Cymru, os cofiaf yn iawn, oedd y cwmni oedd yn gyfrifol am gyflwyno rhaglen wythnosol o ail greu 'dosbarth nos' ar lawr y stiwdio yng Nghaerdydd. Gwahoddwyd gwahanol ddarlithwyr a phedwar aelod o'u dosbarthiadau i'r brifddinas yn wythnosol ac estynnwyd y gwahoddiad i Cynan, a penderfynodd yntau wahodd Mrs Thomas a'r digymar Richard Jones, y prifathro lleol o Ddeiniolen, ac Emllyn Davies a minnau o'r Waunfawr. Tridiau i'w trysori oedd y rheini. Roedd trafaelio ar y trêni i Gaerdydd yng nghwmni Cynan yn bleser ynddo'i hun gan iddo liniaru'r daith — oedd bryd hynny yn llawer hwy nag ydyw erbyn hyn — gyda ffeithiau diddorol am y manau y teithiem drwydynt.

Y bore canlynol i ffwrdd â ni i'r stiwdio i ymarfer hyd syrffed. Testun darlith Cynan oedd 'Anterliwtiau Twm o'r Nant'. Roedd ef i siarad am ddeng munud i chwarter awr a ninnau, y pedwar aelod, i'w holi a thrafod cynnwys y ddarlith am weddill y rhaglen a dim munud cyn hynny. Raymond Edwards oedd y cynhyrhydd ac roedd wedi trefnu fod llun o'r drol y safai Twm o'r Nant arni i'w dangos ar y sgrîn pan gyfeiriai Cynan ati yn ei ddarlith. Yn y rhaglen ei hun, a bron i ddeng munud wedi mynd heibio, roedd yn ymddangos bod Cynan wedi anghofio sôn am y drol a cheisiai aelod o'r tîm cynhyrchu ddwyn ei sylw at y llun oedd ar y stand gerllaw. Ond i ddim pwrpas.

Sylweddolais innau hynny ond roeddem wedi ein cyfarwyddo i beidio a dweud gair yn ystod y ddarlith ei hun. Doedd dim amdani ond mentro, a thorrais ar draws y darlithydd gan ofyn, 'Ar beth roedd Twm o'r Nant yn cynnal yr anterliwtiau?' Daeth gwên i wyneb Cynan ac meddai, 'Wrth reswm ar y drol yr oedd yn



Pedwar aelod o ddsbarthiadau Cynan yn Neiniolen a'r Waunfawr a ymddangosodd gydag ef ar y rhaglen 'Anterliwtiau Twm o'r Nant' ar y teledu ym 1958. O'r chwith i'r dde: Emllyn Davies, Richard Jones, Cynan, Rol Williams, Mrs Thomas.

cynnal yr anterliwtiau hyn . . . Suddais i'm sedd yn barod i dderbyn cerydd y darlithydd a'r cynhyrhydd ar derfyn y rhaglen. Ond nid felly y bu. Brasgamodd Cynan ar draws llawr y stiwdio a gwên ar ei wyneb gan ysgwyd fy llaw . . . 'Wyddoch chi beth . . . mi'r roeddwn wedi anghofio'n llwyr am y drol . . . diolch o galon ichi am dorri'i mewn.'

Yn y gwesty y noson honno roedd Cynan, Mrs Thomas, Emllyn Davies a minnau yn eistedd yn y lolfa yn mwynhau 'aperitif' cyn cinio ac yn disgwyl Richard Jones oedd wedi mynd i ymweld â chyfaill yn y brifddinas. Yn sydyn — yn ei ddull arferol — daeth Richard drwy'r drws ar wib, rhoddodd ei het a'i gôt ar y stand, a oedd eisoes yn llawn i'r ymylon, a cherddodd tuag atom gan wenu. Yn sydyn ac yn ddiarwybod i Richard Jones cwmpodd y stand o dan bwysau'r holl gotiau gan daro Richard yn ei wegil gan beri ochenaidd tros y lolfa. Rhuthrodd pawb tuag ato, a'r Prifardd yn fwy pryderus na neb am gyflwr un arall o 'hogia Pwllheli'. Wedi iddo ddod ato'i hun, i mewn â ni am ginio a Cynan, wrth gwrs, yn llywyddu'r trafodaethau ynglŷn â'r fwydlen a'r gwin gan ei fod yn awdurdod ar y pwnc hwnnw.

Holai'r gweinydd am darddiad a blwyddyn y gwirod, a chan ein bod ni, yr anwybodusion, wedi llwyr drosglwyddo popeth ynglŷn â'r dewis i'w ofal ef, daeth y gweinydd a photel gan dywallt ychydig i wydryn Cynan. 'Dyna'r oll ydach chi'n gael, Cynan?' gofynnodd Richard mewn syndod llwyr. 'Na . . . dim ond diferyn i'w brofi, Richard.'

O bosib mai'r tymor y bu Cynan yn trafod rhai o'i gerddi ei hun oedd un o'r tymhorau difyrffaf i mi, ac mae aml i sylw o'i eiddo ar ei gerddi wedi eu croniclo ar ymyl sawl tudalen o'i

gyfrol *Cerddi Cynan* a gyhoeddwyd ym 1959. A phwy all anghofio ei gyflwyniad dramatig i ni o'i faled 'Largo', a 'Baled y Pedwar Brenin', a'i ddehongliad personol o'i bryddest tra poblogaidd 'Mab y Bwthyn', a rhamant 'Monastir'.

Pob haf, am flynyddoedd, arferai arwain aelodau ei holl ddsbarthiadau o Fôn ac Arfon i fannau hanesyddol, gyda chinio ac adloniant draddodiadol wedi ei drefnu mewn rhyw westy neu'i gilydd. Ef ei hun fyddai'n trefnu'r cyfan a hynny yn ddifeth yn drylwyr. Cofiaf ginio yng Ngwesty'r Saracen ym Meddgelert un nos Sadwrn a Cynan yn cofleidio Telynores Eryri ar ôl iddi ennyn cymeradwyaeth fyddarol am ei chyflwyniad o'r 'hen dramp'. Dau berfformiwr a dau artist y cefais y fraint o'u hadnabod.

Wrth droedio maes yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yntau 'yn ei rwysg a'i rym' yng nghanol y pwysigion, ni fu iddo unwaith, o'm gweld, fynd heibio heb ymadael â'r gwmniaeth ddethol a dod ataf i ysgwyd llaw a sgwrs sydyn, a thrysoraf yn fawr lythyr neu ddau a dderbyniais ganddo o dro i dro.

Pan ddaeth ei bum mlynedd i ben yn y Waunfawr methiant fu ein hymdrech i ddylanwadu ar swyddfa'r WEA i ni gario ymlaen gyda Cynan fel athro. Bu Deiniolen yn fwy ffodus na ni, gan iddo fod yno am saith mlynedd, os cofiaf yn iawn. Ond rwy'n siŵr fy mod yn datgan teimpladau aelodau dosbarth Deiniolen yn y pumdegau, yn ogystal â'r rhai ohonom sydd ar ôl o'i ddsbarth tra llwyddiannus yn y Waunfawr, wrth ddweud i ni fwynhau pob awr yng nghwmni gŵr a lanwodd sawl piser 'yn fwy na llawn'.

ROL WILLIAMS

(Oes gan rywun arall o gyn-aelodau'r dosbarthiadau yn y Waunfawr neu Ddeiniolen atgofion am Cynan? Buasem yn falch iawn o'u rhannu.)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr



Aelodau'r Urdd ar eu hymweliad diweddar â Pharc Dudley.

Enillwyr y Clwb 300. Mis Mawrth — £40: Dr Huw Roberts, Hofoty, Rhosbodrual; £25: Mr a Mrs Greasley, Minafon; £10: Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa. Mis Ebrill — £40: Mr Siôn Jones, Penrhos; £25: Mrs R. R. Hughes, 15 Tref Eilian; £10: Mrs C. Owens, 12 Croesywaun.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Thurley, Stad Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Croesawn Mr Wyn Griffith, Ger y Nant, adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd buan ichi Mr Griffith.

Llongyfarchiadau

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchwn Sioned Jones, Cynrant Lodge, am lwyddo mewn arholiad theori cerdd, gradd 1; a Helen Wyn Williams am lwyddo gyda anrhydedd, mewn arholiad theori cerdd, gradd 2. Daliwch ati y ddwy ohonoch.

Ar y teledu: Gwelwyd Meg Ellis, Glanfa, ar y rhaglen deledu 'Master Mind', ac er na ddaeth i'r brig roedd yn dipyn o gamp i gystadlu ar y rhaglen.

Llwyddiant arholiadau: Llongyfarchwn Adrian Roberts, 9 Bryn Golau ar ei llwyddiant yn arholiadau nyrsio RGN. Mae Adrian ar hyn o bryd yn nyrsio yn Ysbyty Llandudno. Dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

Pêl-droed: Llongyfarchiadau i ddwy ferch o'r pentref — Gwenan Jones, Glyn Ceris, ac Elain Owen, Glyn Awel, sy'n aelodau o dîm pêl-droed merched dinas Bangor. Roedd y ddwy wedi teithio i Fanceinion yn ystod y Pasg i chwarae gêm yno.

Arddangos Cŵn: Llongyfarchiadau i

Malcolm Roberts, 9 Bryn Golau, ar ei llwyddiant ym myd arddangos cŵn ac hefyd fel barnwr mewn sioeau cŵn ledled Prydain, Ffrainc a'r Almaen.

Genedigaeth: Yn ystod y mis ganwyd merch fach, Fiona, i Karen a James, wyres fach i Megan Williams a Dennis Bound, a gorwyres fach i Mr a Mrs H. O. Jones, Glaslyn.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchwn Mrs J. Parry, Clydfan, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed; Mrs Annie Roberts, Fron Olau ar gyrraedd ei 80 mlwydd oed; bu Ella Wyn, Graianfryn, yn dathlu cyrraedd ei 21ain oed; a Geraint Rees, Pant Afon, yn dathlu cyrraedd ei 18 mlwydd oed.

Diolchiadau:

Dymuna Geraint ddiolch am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Mrs Annie Roberts, Fron Olau, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch hefyd i ffrindiau yn Llanberis a Chwm-y-glo am eu anrhegion.

Priodas: Dymuniadau gorau i Kim Turner, Collfryn, ar ei phriodas â John Lamerick. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon. Dymuniadau gorau i Dylan a Maria, Cae Steel, ar eu priodas hwythau.

Dyweddi: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Manon Jones, 11 Tref Eilian ar ei dyweddiad â Neil Vaughan Jones o Amlwch.

Tymor yr Arholiadau: Mae tymor yr arholiadau wrth ein drws unwaith

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Gwellhad: Anfonir cofion arbennig at Mrs Eluned Porter sy'n derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl; ac i Mrs Gaynor Williams, 15 Bryntirion, yn Ysbyty Gwynedd. Deellir fod Mrs Elinor Jones, Heatherbank, a Mr Alwyn Jones, Racca, yn gwella wedi'u triniaethau hwythau yn ddiweddar.

Croeso: Estynnir croeso cynnes i Mr Eifion Griffiths a Dylan i'n plith. Gobeithio eu bod wedi hen setlo bellach yn 12 Llys y Gwynt.

Ysgol Sul Bosra: Llongyferchir y plant i gyd am eu gwaith canmoladwy yn y ddwy gymanfa. Cynhaliwyd y naill yn Ebeneser, Deiniolen, ar 9 Ebrill, a'r llall yn Ebeneser, Caernarfon ar 23 Ebrill. Diolchir i Mrs Elizabeth Jones am drefnu bws i Gaernarfon. Bydd rhaid trafod y trip blynyddol rwan wedi'r gwaith caled yma.

Urdd Bentref: Llongyferchir Erin Eifion ar ddod yn drydydd yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Dymunir pob llwyddiant i Ynyr Roberts yn y Genedlaethol ym Mhreseli.

eto. Dymunwn yn dda i bawb sy'n sefyll arholiad mewn ysgol a choleg.

Damwain: Dymunwn wellhad buan i Huw Gwilym, Lliadiart Wen, wedi iddo dorri ei ffêr tra'n chwarae rygbi yn ystod gwyliau'r Pasg.

Yr Urdd: Dyma rai o weithgareddau'r gangen yn ddiweddar:

22 Mawrth — cafwyd Noson Cwis gyda Jina, ac ychydig o ymarfer dawnsio gwerino.

20 Mawrth — cynhaliwyd Twmpath Dawns gyda Dyfrig Jones yn galw, a grŵp offerynnol o Ysgol Syr Huw Owen. Cafwyd noson gwerth chweil a diolchwyd i Mr Jones gan Esyllt.

5 Ebrill — I orffen y tymor aethom am dro i Parc Dudley, yng nghwmni'r Warden Marian Lewis. Er gwaetha'r tywydd garw cafwyd noson i'w chofio ac mae pawb yn edrych ymlaen i'r Parc gael ei agor i'r cyhoedd yn ystod mis Mai. Diolchwyd i Marian gan Ifan Glyn.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn. Bydd yr Urdd yn ail-ddechrau ym mis Medi. Bydd croeso cynnes i unrhyw blentyn o 7-11 oed i ymuno â'r gangen.

Pwyllgor Neuadd: Cynhaliwyd noson ddifyr a hwyliog yn y Neuadd Gymuned, nos Iau, 6 Ebrill — noson o 'Hwyl y Pasg'. Bu cystadlu brwd a diolchir i Rhian a Rhys Roberts o Ben-y-groes am feirniadu mor deg, gwaith anodd gan fod safon y cystadlu yn uchel iawn. Diolchir i Rhian a Rhys am eu rhodd hael a braf oedd cael cwrdd â Cian Rhys eu mab bychan. Tynnwyd Clwb Cant mis Mawrth, a'r enilwyr oedd: 1, G. Jones, 25 Bryntirion; 2, Myfanwy Parry; 3, Ron Hughes. Enillwyr y raffl, sef wyau Pasg, oedd Manon, Melanie a Mathew Powell. Diolchir i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Y Cylch Meithrin: Nos Wener, 5 Mai, yn yr Ysgol Gymuned am 6 o'r gloch, fe fydd plant y Cylch Meithrin yn cael eu noddi yn reidio beiciau. Yn dilyn bydd Sêl Cist Car a nifer o stondinau a chastell neidio i'r plant. Bydd y giataiau yn agored i'r ceir am 5.30 p.m. a'r tâl fydd £4 y car. Dewch yn llw!

Cofrestru: Oes gennych chi blentyn fydd yn 2½ mlwydd oed rhywdro yn ystod y flwyddyn ysgol 1995-96? A hoffech chi sicrhau lle i'ch plentyn yng Nghylch Meithrin Penisarwaun? Yna cysylltwch â Mrs Julie Williams am ffurflen gofrestru. Ffôn 673930.

Cofion Arbennig: Un sy'n edrych ymlaen yn eiddgar am dderbyn yr 'Eco' yn fisol ers iddo ymuno â'r Fyddin yw Jonathan Richardson. Ac yntau ar hyn o bryd yn Bosnia anfonir ein cofion anwylaf ato. Mawrygwn dy ddewrder ac edrychwn ymlaen am dy gael adref yn ôl.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Rhian Green ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Ynyr Griffydd ar ei llwyddiant gyda'r ffidil. Enillodd radd 4 gydag anrhydedd. Llongyfarchiadau i Eurig gyda'r soddgrwth — ymlaen rwan i Radd 3. **Priodas:** Dymunir pob bendith i Dylan Williams, Careb, a Bethan Powell, Llanrug, ar achlysur eu priodas yn Eglwys y Santes Helen, ar Sadwrn, 8 Ebrill.

Arholiadau: Ydi mae'r arholiadau bondigrybwyll ar eich gwarthaf eto blant! Dymunir pob llwyddiant i'r rhai sy'n sefyll arholiadau TGAU, lefel-uwch, ac arholiadau yr amrywiol golegau.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521


Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

CHWILOTA

GRUGIEIR Y CEFN DU



Mae'n ymddangos fod dau dirfeddianwyr ar rannau o fynydd y Cefn Du ers talwm. Mae Mr Glyn Owen, Glan Gors, Ceunant, yn nodi mai Glynllifon oedd perchnogion y rhan o'r mynydd ar ochr y Waunfawr, ac y deuai aelodau o deulu'r Wynniaid yno i hela ac i oruchwyllo casglu eu defaid. Ar dir y Bryngwyn, Waunfawr, roedd ffynnon a elwid yn 'Ffynnon Mr Wynn'. Roedd tŷ hefyd yng Ngroeslon Waunfawr a elwid yn 'Dŷ John Jones Bugail', ac yn y Penbryn Goleu (Monte Verita heddiw!) roedd y cipar yn byw. Dyna'r wybodaeth a dderbynias gan Mr Owen. Efallai bod eraill â mwy o fanylion am deulu'r Glynllifon yn hela ar lethrau'r Cefn Du.

D. Elliot Alves, Castell Bryn Bras, oedd biau'r llethrau o'r copa i lawr am y Ceunant, Tan y Coed a'r Bwlch Gwnnog. Mr Owen Jones, Garth, Ceunant, a'i frawd Mr R. Jones, Penhafodlas Ceunant, sy'n berchnogion ar y tir hwn erbyn heddiw, ac ar y gweithredoedd mae'n cael ei ddisgrifio fel 'grouse moor'. Mae Mr Owen Jones yn cofio'r amser pan oedd saethu grugieir yn gyffredin ar y mynydd. Cefais bnawn difyr yn ei gwmni yn gwrando arno'n adrodd hanes yr helpa.

Roedd dau gipar gan Elliot Alves, un yn byw yn y Lodge gerllaw'r castell, a'r llall yn byw yn Tŷ Cipar ar lan Llyn Bryn Bras. Byddai'r ciperiaid yn magu grugieir mewn 'runs' anferth ar dir y castell, a phan fyddai'r cywion yn ddigon hen fe'u gollyngid ar y 'warren', sef y boncan rugog sy'n codi tu cefn i'r castell ac yn ymestyn tua'r Blwch. Oddi yno, byddai'r grugieir yn heidio i borfa frasach y Cefn Du, rhai ohonynt i ddianc am byth, ond eraill i'w saethu yn yr helpa flynyddol a drefnid i ffrindiau Elliot Alves.

Roedd y cytiau saethu yn cael eu gosod ar lethrau'r mynydd, yn ymestyn o gefn Parciau Gleision hyd y copa, ac wedi eu lleoli rhyw 200 llath ar wahân. Er mai 'cwt saethu' oedd yr enw arnynt, eto'i gyd, yn ôl Mr Jones, dim ond cuddfan i'r saethwyr oeddent mewn gwirionedd. Tair ochr oedd i'r guddfan, wedi ei adeiladu o goed bedw wedi eu plethu, a tho o rug iddo. Gallai'r saethwr wthio'i wn allan drwy wal y guddfan i ddisgwyl i'r curwyr 'godi' y grugieir. Os byddai'r grugieir wedi hedfan dros y guddfan, yna doedd y saethwr byth yn troi a cheisio tanio wedyn. Yn ôl Mr Jones, doedd saethu ar ôl y grugieir ddim yn cael ei gyfrif yn 'sporting'! Dywed Mr Jones fod cytiau saethu cynharach i'w gweld ar y mynydd yng nghyffiniau Carreg Lefain, sef cytiau crynion o gerrig. Mae rhai o'r olion hyn yn parhau yno heddiw. Ym Mwlch y Groes roedd un cwt cerrig arall, gryn dipyn yn fwy o faintioli, ac yn debycach i gaban. Yma y byddai'r criw i gyd yn setlo i gael

bwyd a diod yn ystod yr helpa.

Holais Mr Jones pam fod cyn lleied o rugieir ar y mynydd heddiw, a'i farn ef oedd fod llwynogod yn bla ar y Cefn Du. Ers talwm, meddai, rhan o waith y ciperiaid oedd cadw rheolaeth ar nifer y llwynogod. Roeddent yn defnyddio un dull arbennig iawn. Byddai ffrwd fechan yn cael ei hollti nes ffurfio ynys o dir sych. Ar ganol yr ynys fechan rhoddid polyn, ac arno, iâr neu ysglyfaeth arall yn hongian. O amgylch yr abwyd gosodid trapiau, ac yna eu gorchuddio â mwsog. Byddai'n rhaid i'r llwynog druan neidio dros yr afon i gyrraedd yr ysglyfaeth, ac felly'n glanio'n daclus yn un o'r trapiau. Mae bellach yn anghyfreithlon gosod trapiau o'r math hwn i ddal llwynogod. Clywais Gwilym Roberts, Fron Oleu, Llanberis, yn adrodd hanes tebyg am y dull hwn o ddal llwynogod, a dywedai ef mai Mr Bell oedd enw'r cipar o Fryn Bras a welodd yn defnyddio'r dull. Adroddai hefyd fod Cymdeithas Ddifa Llwynogod yn Llanrug ar un amser. Oes rhywun â gwybodaeth amdani?

Un arall a gysylltodd â mi ynglŷn â hanes saethu'r grugieir yw Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug. Mae yntau'n cofio cyfnod Elliot Alves ym Mryn Bras: 'I ni, hogiau Tan y Coed, byddai cryn ddiddordeb yn yr helpa grugieir a ddigwyddai tua Gŵyl Fihangel, ddiwedd Medi. Ar ôl y 12fed o Awst byddai Huw Jôs Cipar, a Stiwl Maxwell yn brysur yn trefnu diwrnod o hela ar fynydd Cefn Du. Byddai'n rhaid wrth gurwyr i gerdded o flaen y gynnau i godi'r adar. Cariai bob un bastwn a fflag wen i nodi ei safle yn y

rheng. Ymlaen â nhw i guro'r grug a'r rhedyn, a'r gwahoddedigion yn dilyn 'mewn diwyo drefn' gan anelu uwchben y curwyr. Atseiniai'r ardal gan gleciadau o sawl baril. Dilynai'r cŵn i gludo'r clwyfedig rai i ddiogelwch y fased.

'Syr Goronwy Owen, A.S., Llwynbrain, a'i fonesig; Y Gwir Anrhydeddus D. Lloyd George, A.S.; Arglwydd Brabazon o Tara, a ffrindiau o'r ddinas oedd gwesteion D. Elliot Alves a'i fonesig, Helen Olive Alves, yng Nghastell Bryn Bras.

'Cychwynnid yr helpa tua Ty'n y Mynydd, Groeslon, Waunfawr. Ceid egwyl hanner dydd am bicnic ar y mynydd: hamperi o ddanteithfwyd o Fortnum a Mason, a diodydd egsotig i arlwygo gwledd.

'Hogiau lleol fyddai'r curwyr, rhai'n weision Bryn Bras, eraill yn ddiwaith ar y pryd: John Lei, Rallt Deg, yn ei glôs, legins, coler rybar a chap stabal; Huw Penlôn o'r gerddi; Alff Tŵr, mab y cipar; Jac Gelliog, y cowmon; Bob Davies, Cwm y Glo, gartref o'r fyddin; a John Bwli o'r Bryngwyn yn curo'r grug am gyflog o saith a chwech y dydd.'

Ond roedd (ac y mae) llwybrau cyhoeddus yn croesi'r Cefn Du, a gallai rhyw deithiwr anffodus fod mewn cryn berygl pan fyddai'r helpa ar droed. Mae Mr Robert Williams yn cofio un achlysur o'r fath: 'Cofias am un, Bob Roberts, gwerthwr te, yn cael ei daro yn ei ben â haelsen wrth groesi'r mynydd o Lanberis.' Mae'n amlwg fod y cymeriad yn bur hoff o sôn am y digwyddiad, oherwydd mae Mr Williams yn cofio amdano'n profi gwirionedd

y stori, 'a ninnau'n blant yn cael teimlo'r haelsen yn rholio o dan groen ei benglog moel.'

Benthycwyd y llun o weithwyr Bryn Bras gan Mrs E. Pritchard, Ffordd Padarn, Llanberis. Fe'i tynnwyd yn 1923, ac mae'r pennawd oddi tano yn nodi: 'Indoor and Outdoor Staff, Bryn Bras Castle'. Mae Elliot Alves ei hun yn sefyll yn y canol, tu ôl i'r llew, gyda'i wraig o'i flaen. Ar y chwith mae morynion a gweision y tŷ, ac ar y dde mae'r ciperiaid a gweision y gerddi. Sylwch ar y ddau ŵr mewn lifrai tebyg i lifrai llongwyr — y chauffers. O bobtu i Elliot Alves ei hun mae dau ŵr bonheddig yn barod am ddiwrnod o hela.

Mae Mrs Pritchard yn ferch i un o'r ciperiaid, a gallai enwi nifer o'r bobl yn y llun. Roedd hi'n byw yn Tŷ Cipar, neu Fwlch Gwnnog, ar lan Llyn Bryn Bras. Yn naturiol mae'n cofio enwau'r gweision oedd yn gysylltiedig â gwaith ei thad. I'r dde o'r ddau chauffer mae Hugh Jones y Cipar, oedd yn byw yn y Lodge Isaf. Y tri gŵr nesaf oedd y curwyr ar y mynydd; sylwch eu bod yn cario pastwn a fflag wen — yn union fel y disgrifia Mr Robert Williams yn ei atgofion uchod. Eu henwau oedd John Elias, Rallt Deg; Alfred Jones, mab y Cipar; yna brawd i John Elias. Wedyn daw Stuart Maxwell, yr ail gipar, sef tad Mrs Pritchard. Wrth ei ochr mewn côt laes mae Robert Owen, Tan y Coed. Y rhes olaf o weithwyr yw'r garddwyr, gydag Arthur Owen, y prif arddwr, yn drydydd o'r pen.

TÎM PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL



Daeth y llun i sylw drwy law Eifion Roberts, Becws Eryri. Efallai mai'r pennawd cywir arno yw llun tîm pêl-droed y Llanberis County School. Dyna sydd wedi ei ysgrifennu ar y bêl, ac mae wedi ei dyddio yn 1902. Mae'r llun felly yn 93 oed! Ymddengys mai'r prifathro yw'r gŵr hefo mwstach-handlan-beic ar y dde, ac o bosib mai un o'r athrawon

sydd ar y chwith yn y cefn. Credir mai Bob Morris sy'n eistedd (yr ail o'r dde), a ddaeth yn ddiweddarach yn athro cymeradwy yn Ysgol Brynrefail. Mae'n amlwg i'r llun gael ei dynnu ym Mrynrefail, oherwydd mae creigiau'r Fach-wen i'w gweld yn y cefndir. Oes rhywun â mwy o wybodaeth am y tîm cynnar hwn?



Nid oedd yn bosibl i ni ddangos y llun cyflawn yn yr 'Eco', oherwydd mae'r gwreiddiol yn mesur troedfedd a hanner, ac yn cynnwys, nid yn unig y rhes gweithwyr, ond rhan o'r Castell a'r gerddi o'i flaen. Bu'n rhaid crynhoi rhan o'r llun i ffitio ar draws pedair o golfnau'r 'Eco'! Ychydig o weithwyr y tŷ a all Mrs Pritchard eu henwi, ond o bobtu i'r llew ar y chwith mae Hugh Jones a Mrs Holbrook yr housekeeper. Yn y canol mae Elliot Alves a'i wraig, yna'r ddau chauffeur. Credai Mrs Pritchard mai Bert oedd enw un ohonynt. Hugh Jones, Robert Owen, Cae Siencyn, Tanycoed, Cipar, John Elias, Rallt Deg, Alfred Jones, brawd John Elias, Stuart Maxwell. Yn drydydd o'r pen mae Arthur Owen, ac ar yr pen de eithaf mae Mr Holbrook.

Mae Mrs Pritchard yn cofio'r dyddiau hela ar y mynydd, ac yn nodi, fel Mr Owen Jones, fod rhes o gyntiau saethu yn ymestyn ar hyd y llethrau. Yn ei thyb hi, roedd y cyntiau'n cael eu gadael ar y mynydd gydol y flwyddyn, ac yn cael eu hatgyweirio pan fyddai angen.

TEULU BWLCH GWNNOG A CALIFFORNIA

Beth amser yn ôl apeliais am wybodaeth ynglŷn â theulu Joseph Williams o Galiffornia. Roedd yn awyddus i gysylltu ag unrhyw berthynas iddo a oedd yn parhau i fyw yn ardal Cwm y Glo. Ganed ei hen daid a'i daid ym Mwlch Gwnnog; y naill yn 1830 a'r llall yn 1853. Ymfudodd y ddau i'r America yn ystod 80au y ganrif ddiwethaf. O archwilio cofrestrau plwyf Llanrug a gwahanol gyfrifiadau roedd yn bosibl olrhain rhywfaint ar hynt a helynt y teulu. Bûm yn ffodus hefyd i dderbyn gwybodaeth gan Mrs Mair Williams, Elidir View, Cwm y Glo, sy'n hannu o'r un teulu. Mae Joseph Williams o Galiffornia, bellach mewn cysylltiad â'i deulu yng Nghwm y Glo.

Ganed Owen Williams yn mhlwyf Llanllyfni yn 1803. Erbyn 1828 roedd ef a'i briod, Elizabeth (genedigol o Fedd-gelert yn 1804) yn byw ym Mwlch Gwnnog, pryd y ceir cofnod o fedyddio Elin neu Elinor, merch iddynt, yn Eglwys Llanrug. Priododd Elin gyda Robert Owen o Lanfairisgaer ac yn ôl Cyfrifiad 1871 roeddent yn byw yn Bwlch Gwnnog gyda'u plant: Elizabeth, John, Ruth, Jane ac Ann. Roedd tri o blant eraill iddynt — Owen, Elin a David — unai wedi marw neu wedi gadael cartref. Oes rhywun o'r fro yn hannu o briodas Elin a Robert Owen?

Ganed mab hynaf Owen ac Elizabeth Williams yn 1830. Fe'i enwyd ar ôl ei dad, yr Owen hwn oedd hen daid Joseph Williams. Priododd yn 1853 yn Eglwys Llanrug gyda Mary Owens, merch Owen Owens, Cwm y Glo. Ganed iddynt wyth o blant: Owen, David, Robert, Elizabeth, William, Margaret, Michael a Ruth. Erbyn 1871 roeddent wedi ymud o Fwlch Gwnnog i fyw yn Bod Awen House, Cwm y Glo. Yng Nghyfrifiad 1881 mae'r teulu yn byw yn Gors Bach, Cwm y Glo. Yn 1884 ymfudodd Owen (ganed 1853) i'r America, ac yn 1888 dilynwyd ef gan ei dad, a'i frawd, Michael. Ond beth am weddill y brodyr a'r chwirydd a oedd yn parhau i fyw yng Nghwm y Glo. Mae'n siŵr fod rhai o'u disgynyddion yn parhau yn y fro heddiw.

Ganed i Owen ac Elizabeth Williams wyth arall o blant: David (1832); William (1834); Jane (1835); Ruth (1837), John (1841), Elizabeth (1843), Evan (1845) a Griffith (1848). Evan Williams a aned yn 1845 oedd taid Mrs Mair Williams. Mae ei dystysgrif geni yn ei meddiant, a dyna sut y gallai gadarnhau mai Owen ac Elizabeth Williams, Bwlch Gwnnog, oedd ei rhieni.

Claddwyd Owen Williams (1857) a'i wraig Elizabeth (1878) ym mynwent Llanrug, ynghyd â'u merch, Elizabeth (1863). Ar eu carreg fedd nodir enw'r cartref fel 'Y Bwlch'.

Ble roedd Bwlch Gwnnog? Mae tŷ o'r enw hwn ar gael heddiw, ar y llwybr sy'n cysylltu Lôn Clegir â'r Allt Goch, Cwm y Glo. Y Bwlch yw'r enw ar yr ardal hon hefyd. Ond, o astudio hen fapiau, gwelir fod y Bwlch Gwnnog gwreiddiol wedi ei leoli yn agos i hen fawnog plwyf Llanrug; y fawnog a foddwyd i greu Llyn Bryn Bras. Mae'n

ymddangos, felly, mai'r Lakeside Cottage presennol yw safle'r Bwlch Gwnnog gwreiddiol.

Os oes unrhyw un o ddarlennwyr yr 'Eco' â gwybodaeth ychwanegol am y teuluoedd y sonnir amdanynt uchod, byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

CRIW CHWARELWYR

Ddau rifyn yn ôl ymddangosodd llun criw o chwarelwyr 'ar achlysur ymddeoliad gŵr o Seion'. Gofynnwyd ar y pryd a oedd rhywrai yn cofio'r achlysur neu yn adnabod rhywun yn y llun. Bellach, mae'r enwau bron i gyd wedi eu cofnodi, a diolch i Mrs Myra Turner o'r Waunfawr, a Mr Leslie Roberts, gynt o 4 Green Terrace, Deiniolen, am y wybodaeth. Diolch hefyd i'r person anhysbys a anfonodd gopi o'r llun drwy'r post i mi, gydag enwau wedi eu nodi arno. Drwy gyfuno'r wybodaeth gan y tri uchod, gallwn roi'r manylion canlynol am y llun:

Mae'n debyg i'r llun gael ei dynnu tua 1945 neu 1946 yn Chwarel Dinorwig. Y gŵr oedd yn ymddeol oedd Mr Samuel Williams, Seion, Llanddeiniolen. Mae'n eistedd yng nghanol y llun, mewn siwt, coler a thei (yn wahanol i weddill y chwarelwyr). Ei gydweithwyr yn y llun oedd: *Rhes gefn (o'r chwith i'r dde)* — 1, Un o feibion Dai bach; 2, ?; 3, Leslie Roberts.

Ail res o'r top (chwith i'r dde) — 1, Edward Williams; 2, ?; 3, Goronwy Jones, Waunfawr; 4, Robert Williams; 5, Huw Davies, Dinorwig; 6, George Evans; 7, ?; 8, Robert Hughes, Llanberis; 9, ?.

Ail res o'r gwaelod (chwith i'r dde) — 1, Gwilym Lloyd, Cynfi Terrace, Deiniolen; 2, Robert Williams, Gallt y Foel; 3, Robert

Williams, Llanberis; 4, Samuel Williams, Seion; 5, Francis Williams, Waunfawr; 6, Thomas John Morris, Penrhos, Bethel; 7, ?.

Rhes flaen (chwith i'r dde) — 1, Alun Roberts, Llanberis; 2, Arthur Jones, Llanberis; 3, Myfyr Lewis, Rhydfadog, Deiniolen; 4, Huw Williams, Clwt y Bont.

A chysidro bod hanner canrif wedi mynd heibio ers tynnu'r llun mae'n rhyfeddol fod cymaint o enwau wedi eu cofnodi. Ond mae pum enw allan o'r 23 yn dal ar goll. Oes rhywun yn eu hadnabod, er mwyn cael yr holl wybodaeth yn llawn?

HENDRE CHICKOT

Ddaeth neb i gysylltiad ynglŷn â'r tyddyn bychan. Bûm yn chwilota mewn hen fapiau ac yng nghofnodion Stad Glynllifon, dros wyliau'r Pasg, ond er fod y bwthyn yn cael ei ddangos yn glir ar sawl map, eto'i gyd doedd dim enw iddo ar yr un ohonynt. Ar ambell un mae'n ymddangos fel pe bai'n rhan o dir Mur Moch. Rhwng Hendre Chickot a Phen y Bwlch mae olion hen fwthyn arall hefyd; mae bellach yn llawn o goed eirin tagu. Oes enw ar hwnnw tybed? Wrth chwilota yng Nghyfrifiadau 1851 ac 1861 deuthum ar draws yr enw Llwyn Tŷ'r Geifr rhywle yn ardal y Clegir. Ble roedd hwnnw tybed? Ac yng Nghofrestrau Plwyf Llanrug ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, nodir fod rhai o aelodau teulu'r Llwyncoed yn byw yn Llwyncoed Newydd Ucha. Ble gallai hwnnw fod?

Anfonwch wybodaeth neu ymholiad ar unrhyw agwedd o hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Llanrug.

O SIAMBAR SELWYN

Rydw i newydd 'fadal. Na, nid symud tŷ, dim ond symud o un llofft i'r llall — nid i gysgu 'chwaith, ond i wneud tipyn o waith, gobeithio. Diolch bod gen i wraig amyneddgar gan iddi symud dros fil o lyfrau a chylchgronau a hen bapurau o un ystafell wely wag i un arall, fel y bydd fy ystafell breifat i (y stydi megis) yn wynebu'r dwyrain bellach, yn hytrach na wynebu'r gorllewin.

Wynebu mynwent y pentra 'ma roeddwn i o'r llofft gefn, ond rŵan mi ga' i'r fraint o wynebu panorama'r Wyddfa a'i chriw, a chael y pleser o weithio yn 'wyneb haul llygad goleuni' ambell i ddiwrnod.

Rydw i wedi sylweddoli eisoes bod yna demtasiwn yn y symudiad, sef y posibilrwydd y byddai, efallai, yn treulio peth amser yn synfyfyr ac yn edmygu gogoniant a chadernid yr hen fynyddoedd 'ma, yn hytrach na phydru arni i wneud tipyn o waith.

Rhyw gwta dair milltir ydi troed yr Wyddfa o ffenast fy stydi newydd i. Rhyw gawr o fynydd yn golchi bawd ei droed yn nyfroedd Llyn Padarn. Cawr oriog ydio. Weithiau mae o'n ymddangos yn agos, agos. Dro arall mae o'n bell, bell i ffwrdd, ac yn mynnu swatio tu ôl i amdo o wawn. Ambell dro mi fydd o'n swancio mewn gwisg o borffor. Dro arall mi fydd o'n llwydaidd a llwm. Gall sylcio'n bwt weithiau hefyd lapio'i hun mewn clogyn llaes o niwl trwchus, a diflannu o'r golwg am ddyddiau. Ond er ei holl arferion mympwyol mi wn i i sicrwydd ei fod o yno o hyd yn cuddio yn y dirgel, ac y bydd o'n ymddangos eto yn ei holl odidowgrwydd cyn hir.

A phan ddelo'r gwanwyn mi fydd yr hen drên bach yn mynnu smocio'i ffordd tua'i grib, a chaf innau weld cyrlan o fwg ar gorun y cawr. Ia, cawr o lonyddwch anferth ydi'r Wyddfa, ac mi fydda i'n holi fy hun yn aml, gan ofyn — ys gwn i ydio'n wag tu

mewn, fel cragen? Ai yng nghrombil hwn mae'r Ogof, lle mae Arthur yn cysgu? Ai yma mae'r Bwrdd Crwn a'r gloch?

Ond yn y gaeaf y gwelir o yn ei wir ogoniant, pan fydd o'n gwisgo ei goban wen, laes, ac yn ddigon hy a dewr i dorheulo dan belydrau llwynog o haul.

Yn yr hydref, fodd bynnag, y byddem ni griw o hoglanciau anystywallt yn ymlwybro i'w gopa fo ers talwm — a hynny yn ystod y nos. Bŷs ddeg o Gaernarfon ar nos Sadwrn. Llond bol o 'fish 'n chips' yn Llanberis, a'i chychwyn hi ar bererindod 'naw-nos-olau'. Yr esgus o'i ddringo yn y nos fyddai cael bod yn dystion i wyrth geni diwrnod newydd arall, a'i wylion'n ysboncio o groth waedlyd y nos. Cyndyn iawn fyddai'r lleuad i'n tywys ni tua'r copa. Gwynt a glaw a niwl fyddai yn ein croesawu ran amlaf o gyrraedd Clogwyn.

A bod yn onest doedden ni yn malio fawr am gael bod yn dystion i wyrth y gwawrio, ond roedd y bererindod flynyddol yn esgus i ni gael bod yn 'adar nos' a chael profi'r wefr o herio'r mynydd, cyn bod sôn am Sherpa Tenzing na Edmund Hillary.

Dwi ddim yn credu i mi erioed weld y wyrth o ddydd yn gwawrio oddi ar gopa'r Wyddfa, a welais i erioed belydrau'r haul yn dawnsio'n foreol ar obennydd y cymylau. Yr atgof sy gen i wedi ei recordio ar fideo fy nghof yw am ddiwrnod arall oer, llwydaidd, yn ymwithio'n styfnig drwy'r niwl, a'r gwynt yn ein gwawdio.

Dywedir mai wrth droed yr Wyddfa y cyfansoddodd Robert Williams-Parry ei awdl 'Yr Haf', ac yn ôl rhai fe'i perswadiwyd yntau i fentro unwaith ar un 'nos ola leuad' i gopa'r Wyddfa i weld y 'dydd yn gwawrio draw'. Digwyddodd rhai sylwi fod 'Bardd yr Haf' yn eu mysg ac fe glosiwyd ato gan ragdybio y clywid geiriau anfarwol a chofiadwy yn dod tros ei fin, pan ddansiai pelydrau'r haul ar

lwyfan diwrnod newydd sbon. Os yw'r stori'n wir mae'n ymddangos mai'r un profiad ag a gefais innau droeon gafodd 'Bardd yr Haf' hefyd, a'r geiriau anfarwol a lefarwyd ganddo oedd — 'Ddoi byth ar y blydi stynt yma hefo chi eto.'!

Ydi hi'n stori wir? Be 'di'r ots ynte. Mae'n stori dda yntydi, ac mae gwers ynndi'n sicr.

Pan oeddwn ar wyliau yn Tunisia rai blynyddoedd yn ôl mi es i ar daith ar gefn camel un bore i weld yr haul yn codi dros orwelion Anialwch y Sahara. Rhyw belen oren enfawr yn tyfu allan o'r tywod. Ond yr olygfa mwya' cofiadwy a gefais oedd gweld toriad gwawr o awyren. Roeddwn yn hedfa o Anchorage

yn Alasca dros ffiniau Pegwn y Gogledd. Aethom i ogof dywyll y nos am ddeng munud, ac yna, oddi tanom, ymddangosodd picellau ffrwydrol o dân, gan ddawnsio'n waedlyd ar orwelion cyfandir o iâ. Anghofia' i byth yr olygfa — pan dorrodd y wawr fel coelcerth ar y gorwel.

Bellach, gan fod fy ystafell weithio yn wynebu'r dwyrain, a minnau'n godwr go fore, rwy'n hyderus y ca' i ambell i fore (o ddyrchafu fy llygaid tua'r mynyddoedd) brofi'r wefr o weld llenni Bwlch y Nant yn agor, a diwrnod newydd arall yn ymwithio o groth y nos, a'r haul yn sbecian dros ysgwydd yr Wyddfa.

DADORCHUDDIO COFEB ER COF AM GYN-ARCHESGOB CYMRU YM MHENISARWAUN 8 MAI 1995

Prynhawn dydd Llun, yr wythfed o Fai, pan fydd gweddill pobol Prydain yn cofio am ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, bydd gwasanaeth a seremoni i ddadorchuddio cofeb er cof am un o arwyr ein cenedl yn cael ei gynnal ym Mhenisarwaun.

Am 2.30 o'r gloch cynhelir gwasanaeth arbennig yn Eglwys y Santes Helen pryd y ceir hefyd ddarlith ar fywyd a gwaith Cyn-Archesgob Cymru, y diweddar Barchediac Ddr GWILYM OWEN WILLIAMS (neu 'Gwilym Siop' fel y'i adwaenir yn y fro hon), gan y Parchedig Ganon D. T. W. Price, Uwch-ddarlithydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

Yn dilyn y gwasanaeth yn yr eglwys gorymdeithir gyda Seindorf Arian Deiniolen i rhif 7 Tai Arthur ac 'Arthur House', Y Waun, ar gyfer y seremoni ddadorchuddio'r gofeb lle bu'r Cyn-Archesgob yn cartrefu am ran o'i oes. Archesgob presennol Cymru, y Parchediac Alwyn Rice Jones, fydd yn dadorchuddio'r gofeb, a luniwyd gan Mr Gwilym Williams, Crefft Elidir, Deiniolen. Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y dathliad arbennig hwn.

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (0286) 673559



GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn; 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263



Mrs A. Smith, Mrs E. W. Thomas a Mrs Beryl Thomas yn mwynhau'r te bach yng Nghapel y Rhos. Gwnaed elw o bron i £150 at gronfa'r ganolfan gymuned a dymun'r swyddogion ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr achlysur.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, 4 Ebrill, aeth nifer dda o aelodau'r gangen i Siop Fferm Cae Coch yn Llanberis. Cafwyd cyfle i edmygu'r celfi o amgylch y siop ac yna mwynhau paned o de neu goffi a theisennau cri hyfryd gan Carol tra'n gwyllo arddangosfa o osod blodau sych gan Pat. Enillwyd cylch o flodau gan Nan Humphreys. Estynnwyd croeso arbennig i ddwy aelod ffyddlon, sef Mrs W. A. Jones a Mrs Jennie Williams ac roedd pawb yn hynod falch o'u cwmni.

Anfonir cofion annwyl at Miss Humphreys wedi'i thriniaeth yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd Mrs Joan Griffith ar ddod yn nain i ferch fach.

Cynhelir Bore Coffi gan Bwyllgor yr Anabl, ddydd Gwener, 26 Mai, yn Festri Capel Salem, Caernarfon. Erfynnir am deisennau gan yr aelodau, sydd i'w hanfon i Mrs Beryl Thomas erbyn nos lau, 25 Mai. Mae tocynnau ar werth hefyd am 50c.

Y mae rhai aelodau wedi gwirfoddoli i gasglu o dŷ i dŷ, rhwng 26 Mehefin a 7 Gorffennaf, tuag at Ymchwil y Galon.

Y Cyfarfod Blynnyddol fydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 9 Mai, felly — dowch yn LLU!

Diolchiadau:

Dymuna Gaynor Williams, Penterfyn, ddatgan ei gwerthfawrogiad diffuant i bawb fu mor garedig wrthi yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch arbennig iawn i staff Uned Gofal y Galon a Ward Aran, Ysbyty Gwynedd; Dr Gwyn Williams; Dr Robin Parry a Nyrs Beth Jones.

Dymuna Rhodri, Glasgoed, Llanrug, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddo ef ac Elyllt ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

Dymuna Mr Iorwerth Williams, Cartref Melys, 1 Glanffynnon Road, Llanrug, ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd mawr a gafodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod adref; am yr holl gardiau, rhoddion, ymweliadau a galwadau ffôn. Diolch hefyd i'r meddygon teulu a'u staff

ym Meddygfa Waunfawr. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mrs Sarah E. Thomas (Sally), Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon i'w pherthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llu anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn 90 oed yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Annie Jones, Eilionwy, Pontrhythallt, ddiolch o galon i'w chymdogion a'i chyfeillion, o bell ac agos, am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Eirianwen Thomas ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

Plaid Cymru: Bydd yr Helfa Drysor a gynhelir ar nos Fercher, 10 Mai, yn cael ei threfnu gan Iwan a Gwenda Roberts, Lleifior. Edrychwn ymlaen at weld aelodau a chyfeillion ar y noson. Bydd yr Helfa Drysor yn cychwyn o brif fynedfa Ysgol Brynrefail am 6.30 o'r gloch. Manylion am eich dewis o fwyd i Iwan a Gwenda, ffôn: 675649, erby nos Lun, 8 Mai, os gwelwch yn dda. Cyw iâr a sglodion £4.95; penfras a sglodion £4.25; lasagne, cyri cyw i'ar neu chili £4.95; lasagne llysiuol £4.50 (selsig, nygets neu scampi a sglodion i'r plant am £3).

Cynhelir cyfarfod o'r gangen — yn ychwanegol i'r rhaglen — ar nos lau,



Dyma lun o ddosbarth 'St. John's' Llanrug yn 1929. A oes rhywun yn adnabod rhai o'r aelodau, neu yn gwybod ble tynnwyd y llun?

18 Mai am 7.30 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa. Y materion i'w trafod fydd Cyfansoddiad y Plaid a ffurfio cynigion i'r gynhadledd. Eleni bydd dwy gynhadledd genedlaethol, un ym mis Gorffennaf a'r llall ym mis Medi.

Pleser yw cael llongyfarch Mrs Annie Jones, Eilionwy, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, ar 24 Ebrill. Mae Mrs Jones yn un o aelodau cynharaf Plaid Cymru a changen Llanrug. Gwerthfawrogwn yn fawr ei chefnogaeth i Blaid Cymru ar hyd y blynnyddoedd.

Nofio: Llongyfarchiadau mawr i Elin Dafydd, Bryn Moelyn, ar ei chanlyniadau ym Mhencampwriaeth Nofio Cymru yn ddiweddar. Yn nofio o dan 12 oed daeth Elin yn bumed yn y medley a'r broga ac yn chweched yn y pili-pala.



Nia, Elin ac Eifion gyda'r tlysau nofio a enillodd y tri yn ddiweddar.

Ddydd Sadwrn a Sul, 22 a 23 Ebrill, cynhaliwyd Gala Nofio y Rhyl, yng Nghyngair Arfordir Cymru a bu tri o bobl ifainc y pentref yn llwyddiannus iawn. Daeth Eifion Williams, 2 Afon Rhos, 9 oed, yn gyntaf gan ennill medal aur am nofio broga a thorodd record y gynghair. Daeth hefyd yn ail yn y nofio pili-pala ac yn drydydd ar nofio ar ei gefn. Daeth ei chwaer Nia, 11 oed, yn chweched yn y strôc rydd ac yn seithfed yn y nofio broga.

Unwaith eto bu Elin yn llwyddiannus drwy gipio'r fedal aur am nofio broga a medal arian am y nofio rhydd (freestyle) a'r nofio cefn.

Mae cystadlu fel hyn yn golygu ymarfer caled iawn, codi'n gynnar yn y bore a rhoi eu holl egni i'r ymarferion. Dalier ati, a llongyfarchiadau i'r tri.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Croeso adref i Miss M. A. Humphreys, Cadnant, sydd wedi bod yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri. Daliwch i wella.

Da yw gweld fod Gwynfa Pritchard, Cefn Llwyd, yn ôl wrth ei waith ar ôl treulio amser yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i Sara Salisbury Roberts, Min Parc, ar gyrraedd ei 'gwregys Dan 1af' mewn Karate Kokoro Shukokai, yn y Rhyl.

Croeso i deulu newydd sydd wedi symud i Pant Clyd. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Dymunaf, drwy gyfrwng Eco'r Wyddfa, ddiolch yn gynnes iawn am yr holl garedigrwydd a dderbyniais yn ddiweddar — gartref ac yn yr ysbyty.

Bu'r teulu, cymdogion a chyfeillion yn gefnogol iawn — wrth law, parod eu cymwynasau, a'u hymweliadau, a'u galwadau ffôn — i gyd yn

amheuthun iawn i glaf yn byw ar ben ei hun.

Y mae'r nifer yr wyf yn ddyledus iddynt yn rhy lluosog i mi fedru cydnabod hynny yn unigol, ond mae'r diolch yn ddiffuant, a'm dyled yn fawr.

Ynglwm â'r diolch uchod fe hoffwn hefyd gynnwys y meddygon teulu gyda'u gofal arferol. Y dyddiau anodd hyn a'r newyddiaduron yn llawn o hanesion trist, amheuthun sôn am y daioni sydd ar gael o hyd.

Hyd mewn cyfnod byr mewn ysbyty daw'r claf i sylweddoli pobl mor arbennig yw'r gweithwyr mewn ysbyty — ymroddedig, wrth law ym mhob argyfwng a'u gwasanaeth dirwgnach, a'r cyfan gyda chydymdeimlad a gwên.

Diolch am ysbytai, meddygon, nyrsus a phawb arall sydd yn gweithio mewn unrhyw fodd er sicrhau glendid a chysur i'r claf.

Miss MEGAN HUMPHREYS, TANYCOED

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Parti Pen-blwydd Antur Waunfawr



Gweithwyr yr Antur yng nghwmni Gwynn Davies, Miss Lucille Hughes ac Elinor Wigley.

Ar nos Wener, 31 Mawrth 1995, daeth ardalwyr Waunfawr ynghyd i'r Ganolfan i ddathlu dengmlwyddiant sefydlu Antur Waunfawr. Roedd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi i'r dyrfa ddaeth yno a chaed noson hwyliog dros ben.

Siaradwyd yn y cyfarfod gan Mrs Elinor Wigley (yn cynrychioli Mr Dafydd Wigley oedd yn analluog i fod yn bresennol), Miss Lucille Hughes, Cyfarwyddwr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a'r Cynghorwyr Eurig Wyn (Cyngor Sir Gwynedd) a Gwilym Williams (Cyngor Bwrdeistref Arfon).

Oherwydd y diddordeb mawr gan y cyhoedd yn gyffredinol, a'r ceisiadau mynych o wahanol rannau o'r byd am lenyddiaeth yn ymwneud â'r fenter, roedd y Cyfarwyddwyr yn ymwybodol ers amser y dylid bod dogfen ar gael yn gofnod o hanes sefydlu'r Antur a'r athroniaeth roddodd fod iddi. Penderfynwyd cyhoeddi llyfr dwyieithog, a manteisiwyd ar y cyfarfod i lansio'r llyfr, a'i gyflwyno i'r cyfranddalwyr. Fel mater o ffaith mae 270 yn aelodau yn y Cwmni ar hyn o bryd, ac fe roir y llyfr yn rhad iddynt hwy. I rai sydd heb fod yn aelodau mae'r llyfr, sy'n hynod ddeniadol ac yn derbyn adolygiadau canmoliaethus, ar werth am £3.50. Gwasg Carreg Gwalch oedd yn gyfrifol am yr argraffu.

Yn ystod y parti dangoswyd

fideo dwyieithog yn rhoi braslun o weithgareddau gweithwyr yr Antur. Cynhyrchwyd y fideo gan 'Cyfle' ac mae Cyfarwyddwyr Antur Waunfawr yn ddiolchgar iawn i 'Cyfle' am y cyflwyniad rhagorol. Gwerthir y fideo am £5.

Roedd ymdeimlad o lawenydd mawr ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y deng mlynedd diwethaf a hyder y bydd y deng mlynedd nesaf yr un mor llywyddiannus.

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
**ELWYN
PRITCHARD**
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun - Sadwrn
10.00 - 4.30
Ffôn: Llanberis
870922**


ANTUR WAUNFAWR
Wedi darllen cerdd T. H. Williams
i 'Bont y Cynnant'

Pont i gymdogaeth newydd
A godwyd yn Waunfawr
Dros gyrnant difaterwch
Sy'n tynnu'r gwan i lawr.
Pont y gobeithion newydd
Pont i gymuned rydd
O nos ein pesimistiaeth
At frawdol fywiol ddydd.

Dydd y cyfiawnder newydd
A dynn y balch i lawr
A'r gwan at lanfa gobaith
Y weledigaeth fawr,
Lle mae pobol yn gyfartal
Yn hir y gwerthoedd gwiw,
A Duw a dyn yn datgan
I bawb yr hawl i fyw.

Uwch dyfnder gwacter ystyr
Mae'n sail i gred a ffydd
Mai trech yw gwlad nac arglwydd
Yn ein materol ddydd.
Ac o ddŵch Nant y Betws
Daeth Gwyrfa'i'n newydd wawr
At bont y gobaith newydd
Yn Antur y Waunfawr.

Eurig Wyn

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646**

**FINE ART

TRADE GUILD
ORIEL
PLAS
GWYN
Pontrug, Caernarfon
Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gweiddiol gan Artistiaid Lleol
Ar ffordd A4086
Caernarfon - Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys**

Y GANOLFAN, LLANBERIS
Ddechrau mis Ebrill cafodd Canolfan Llanberis sylw ar y rhaglen 'Penwythnos Mawr' ar S4C. Gwelwyd Karen Owen yn derbyn paent yn rhodd at y gwaith o baentio'r Ganolfan. Ers hynny mae Karen wedi bod yn brysur yn paentio'r Ganolfan, gan dreulio oriau yno yn gwneud y gwaith ei hunan. Roedd y Cynghorydd Ken Jones yn siomedig felly o ddeall bod rhywun wedi bod yn y Ganolfan yn ddiweddar ac wedi dwyn brwshus paent, gwerth dros £20. Apelir ar bwy bynnag a'u cymerodd i'w dychwelyd yno. Mae'n drist gweld y fath ymateb i ymroddiad ac ymdrech Karen.

**Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112**

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

**W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248**

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi




Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors


Dim un dasg rhy tychan
Dim un dasg rhy fawr

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
LLE DA I WLEDDA
Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwyng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partion rhwyng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION


Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

YMDRECH, DIDDORI A HER

Mis mewn hanes cantorion lleol

Bu mis Ebrill eleni yn flinedig, pleserus, pryderus, hyderus a hanesyddol i Cantorion Elidir. Y mae'n ymddangos fod gan y cantorion yma y ddawn o lwytho gwaith, pryderon a sialens arnynt eu hunain a'r hyn sy'n rhyfeddol yw eu bod yn mwynhau'r cyfan!

Dechreuwyd y mis gyda 'Ffwlbri Ebrill', sef ffair 'syml' wedi ei lleoli yn y Neuadd Goffa, Bethel, a chafwyd tywydd bendigedig o braf ac fe heidiodd yr ardalwyr yno i gefnogi. Roedd yna gryn dipyn o gystadlu yn y gystadleuaeth gwisg ffansi, ac roedd yna ôl cryn ymdrech a pharatoi. Llyncwyd y 'cŵn poeth', prynwyd y llu danteithion, mentrwyd i ennill 'loteri bentrefol' Bethel! Trwy gydol y pwn bu Llion Williams (George, C'mon Midffild) yn diddori'r dorf ac yn sicrhafu fe gyfrannodd yn egniol i ddiddori'r plant.

Diolch arbennig i Seindorf Deiniolen am ein diddori drwy gydol y pwn. Roedd ffresni eu dewis o gerddoriaeth yn ategu at naws hwyliog yr ŵyl.

Mae si y bydd 'Ffwlbri Ebrill' yn ddigwyddiad blynyddol i'r dyfodol.

Y noson ganlynol roedd y Cantorion a'u ffrindiau yn diddori mewn cyngerdd a gynhaliwyd yng Nghapel y Cysegr, Bethel, ac fe welwyd doniau yr ardal ar eu gorau. Dylem ymfalchïo yn y doniau sydd ym mro Llanddeiniolen. Y mae'r ieuentid wedi magu hyder ac yn adlewyrchu eu hymdroddiad yn eu perfformiadau. Roedd disgyblaeth — a gwên — côr yr Ysgol Gynradd wrth berfformio yn dweud llawer.

Gofynnodd un ymwelydd i mi os oedd y corws arbennig, ble mae Nia Land yn unawdydd, wedi ei ysgrifennu ar ei chyfer. Ydi mae dylanwad 'O Gaethiwed i Ryddid' yn parhau o hyd. Beth fydd her nesaf Robin Jones tybed?



Seindorf Deiniolen yn arwain yr orymdaith yn Ffwlbri Ebrill Bethel.

siampên oddi wrth y capten. Cafwyd mordaith bleserus a 'gwin y gwan' yn amlwg yn plesio. Cyrraedd Dulyn a chyfle i grwydro strydoedd y ddinas. Wedi'r amrywiol swpera fe orffenwyd gyda Noson Lawen anffurfiol yn y gwesty. Nid yw'n hollol eglur a oedd Claire ac Iwan wedi dyweddio — ond roedd yn ddigon o esgus i ddathlu! Rhyfeddod, hefyd, fel y gallai Falmi gynnal sgwrs â gŵr o Cork, gan nad oedd hyd yn oed Gwyddelod Dulyn yn ei ddeall yn siarad! Cafwyd byrd rhagorol gan un cwmni bach dethol a gofynnodd un ohonynt i'r gweinydd o ble'r oedd y gwesty yn cael eu cig eidion . . . 'O'r freezer,' oedd yr ateb!

Wedi'r holl dreialon cyrhaeddwyd gwesty rhagorol y Brandon yn

oes amheuaeth fod yr ieithoedd yn rhan anatod o fywyd beunyddiol cenedl. Oes, mae 'na gystadlu yn yr Ŵyl ond y prif nod yw cynnal breichiau ein cyd-Geltiaid. Yr oedd y gwrthgyferbyniad o'r Ŵyl yn un ystafell a'r disgo modern mewn ystafell arall yn drawiadol iawn. Serch hynny cafwyd cefnogaeth frwd gan boblogaeth leol Kerry. Roedd yn amlwg i mi hefyd faint mae aelodau'r Cantorion yma yn cyd-dynnu, a'u

orllewin Iwerddon, y dôn 'Finlandia' a'r y geiriau 'Tros Gymru'n gwlad' gan y Cymry. Gwledd arbennig i'r dorf a oedd yn ddistaw eu gwrandawriad. Wedi'r beirniadu roedd y Cantorion yn siomedig o'u safle ond roedd y ffaith iddynt fentro i dir newydd yn eu calonogi. Byddant fe fyddant yn ôl yn yr Ŵyl.

Gallwn fynd ymlaen yn fanwl am yr hyn a ddigwyddai o gwmas yr Ŵyl ac yn Tralee . . . y Prifardd yn chwarae bowlio-deg . . . pwy yw 'Jack Soup' . . . y canu o amgylch y 'grand piano' yn y gwesty moethus yn Limerick ar ein ffordd yn ôl am Ddilyn . . . gweld (y tu allan) carchar enwog Portlaois — tynnodd nifer o aelodau lun ohono — ai'r bwriad yw anfon Robin a'r Swyddogion yno am gyfnod tybed?

Wedi cryn drafferth gyda'r llongau i ddod yn ôl o'r Ynys Werdd i Fôn fe gyrhaeddwyd yn ôl i Fethel yn flinedig iawn ond gyda llu o brofiadau a straeon diddorol iawn i'n cynnal am amser maith.

Diolch i Cantorion Elidir am eu cwmni, a'u cyfraniad i fywyd diwylliannol a chymdeithasol ein bro.

Y mae gwahoddiad ganddynt i aelodau newydd, a gellir eich sicrhau y bydd croeso cynnes ac amser hwyliog yn eich disgwyl.

CANTORION ELIDIR (Tralee, Ebrill 1995)

Y glew fentrodd i'r gollewin — aethant
O Fethel am Erin;
Gwar ydoedd seiniau gwerin
A'u ffydd yn 'mestyn eu ffin.

RICHARD LLWYD JONES

teyrngarwch i Robin. Cymerwyd rhan yn y Noson Gymreig swyddogol ar y nos Wener (o 10 o'r gloch y nos hyd 2 y bore), ac yna'r Noson Gymreig answyddogol wedyn. Mae sôn bod rhai wedi gweld gwawr fendigedig dros Tralee fore Sadwrn!

Treuliwyd bore Sadwrn yn Kilarney sydd rhyw ugain milltir o



Robin Jones yn rhoi 'gwrandawriad' i aelod newydd Cantorion Elidir yn ystod eu trip diweddar i Tralee.

Tralee. Dychwelwyd i Tralee i wynebu'r brif gystadleuaeth. Cafwyd gwledd o ganu corawl drwy gydol y pwn gan gorau cymysg, merched a meibion. Roedd y beirniaid (o'r Alban, Iwerddon a Chymru) wedi eu plesio ac yn wir roedd pob cystadleuydd yn 'ennill'. Rhaid yw canmol y beirniaid am eu manylder a'u cyfraniadau cadarnhaol a hynny yn cadarnhau mai nid rhyw ŵyl 'ffwrdd-a-hi' di-nod yw hon.

Wedi'r cystadlu cafwyd egwyl o oddeutu hanner awr tra roedd y beirniaid yn cloriannu ac yn ystod y cyfnod hwn fe brofwyd gwir ystyr yr Ŵyl. Heb na scriptio na chynllunio ffurfiol fe ganodd pob côr yn eu tro gan arddangos y gwahaniaethau ieithyddol a theyrngarwch i'w hiaith . . . yr emyn dôn yng Ngaeleg Ynysoedd De'r Alban, cân werin o



Côr Ysgol Gynradd Bethel fu'n diddori yn y cyngerdd yng Nghapel y Cysegr.

Yna fe ddaeth yr her fawr, sef ymweliad y Cantorion â'r Ŵyl Ban-Geltaidd yn Tralee, gorllewin Iwerddon. Roedd yn ymddangos fod ymarfer bob nos — 'Ar hyd y nos' go-iawn! Anodd iawn yw cysgu tra bo'r wraig wrth fy ymyl yn canu rhyw 'Figldi Magldi' yn ei chwsg! Nid oedd rhaid poeni. Roedd Sam a Rhian, wedi paratoi yn drylwyr . . . ac ymaith â'r criw.

Wedi cyrraedd y fferi yng Nghaergybi fe ddathlwyd pen-blywydd Falmi yn 50 ifanc iawn, ac fe ymddangosodd potelaid o

Tralee. Wrth drafaelio i'r gorllewin gwelwyd golygfeydd gwych o'r wlad. Rhyfeddwyd at safon y tai — fel ranches Dallas — a ymddangosai yng nghanol nifer o gaeau fel madarch. 'Wn i ddim os yw Brian ac Eirlys am gael gair gyda chwmni Bob Parry — ond gwylwch rhag ofn i brisiau tai ddisgyn yn sydyn yn y fro hon!

Yn fuan iawn anghofiwyd am y blinder a boddwyd ni yn ysbryd yr Ŵyl. Roedd y teulu Celtaidd wedi dod ynghyd — o Gernyw i Fôn; o Ynysoedd yr Alban i Lydaw. Os oedd poendod ynglŷn ag ambell iaith nid



**Wynedd
Hotel
& Restaurant**

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blywydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

'Un funud fach . . .' Y DŴR DA

Clywais lawer o sôn am ddŵr yn ddiweddar.

Dyna i chi'r cynghorion mynych i ni yfed digon o ddŵr bob dydd. Mae dŵr yn llesol, ac rwy'n ceisio cofio hynny ac yfed digon.

Yr wythnos diwethaf roedd yna drafodaeth frwd ar y radio ynghylch fflworeiddio dŵr yfed. Roedd rhai, yn cynnwys llawer o ddeintyddion, o blaid y peth oherwydd bod fflworeid yn gwneud lles i'r dannedd. Roedd eraill yn gwrthynebu'n ffyrnig oherwydd pryderon y gall fflworeid wneud niwed i'n cyrff.

A'r wythnos hon, dyma ragor o sôn am ddŵr. Mae'r cylchgrawn *Which?*, a gyhoeddir gan Gyngor y Defnyddwyr, yn cyhoeddi arolwg o'r gwahanol ddŵr potel sydd ar gael. Yn ôl yr adroddiad hwn, 'does fawr o wahaniaeth rhwng dŵr potel a dŵr tap, ac nid yw dŵr potel o reidrwydd yn fwy iach.' Gwn am lawer fydd yn anghytuno'n ffyrnig â'r adroddiad hwn, ac yn dal ati i yfed a mwynhau dŵr potel. Ond mae'n amheus gen i a fydd llawer o bobol y fro hon yn gallu fforddio 'Dŵr Ffynnon DKNY' o'r Unol Daleithiau — mae hwnnw'n costio £3 y litr!

Gwn am ddŵr sy'n rhad iawn. Mae wrth law o hyd. Nid yw'r ffynnon y mae'n tarddu ohono yn sychu byth. Mae'r dŵr hwn yn gwneud lles i bawb sy'n ei yfed. Nid oes unrhyw sgil-ffeithiau iddo. Mae'n torri syched yn ardderchog. Mae'n gwneud hynny mor effeithiol fel nad yw'r rhai sy'n ei yfed yn teimlo'n wirioneddol sychedig byth wedyn. Dyma'r gwir Ddŵr Bywiol. Nis ceir mewn potel, ac nid yw'n llofi o'r un tap.

Iesu Grist soniodd un diwrnod wrth wraig o Samaria am y Dŵr Bywiol hwn. O'i gymharu â dŵr y ffynnon yr oeddent yn sgwrsio wrth ei hymyl, mae'r Dŵr Bywiol yn ysbrydol. Mae'r Iesu yn gallu bodloni bywyd ei bobol yn llwyr. Wedi profi ei gariad a'i faddeuant a'i gysur Ef, does dim angen mwy ar ei bobol. Mae'r Iesu yn cynnig gwir Fywyd yn y byd hwn a'r byd Tragwyddol i bawb sy'n dod ato.

JOHN PRITCHARD

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI
Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390



Trigolion Plas Pengwaith gyda dwy chwaer y ddiweddar Miss Mary Owen, 3 Hafan Elan, Llanrug. Yn y cefndir mae'r dresel a'r llestri a gyflwynwyd er cof amdani.

Carnifal: Tybed oes yna rai o blant Llanberis a fyddai'n hoffi cymryd rhan yn Noson Coroni Brenhines y Carnifal sydd i'w cynnal ar Orffennaf 7. Mae cyfle i chi ganu neu adrodd neu chwarae offeryn. Cysylltwch â Beryl am ragor o fanlyon. Ffoniwch 870259.

Plas Pengwaith: Cyflwynodd teulu'r ddiweddar Miss Mary Owen, 3 Hafan Elan, Llanrug, rodd ariannol i'r cartref er cof amdani. Prynwyd dresel a llestri gyda'r arian a bu dwy chwaer Miss Owen ym Mhlas Pengwaith yn cyflwyno'r rhoddion coffa gwerthfawr yn swyddogol i'r cartref. Diolch yn fawr iddynt am eu haelioni.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Traws-gwlad yr Urdd yn Aberystwyth, ddydd Sadwrn, 8 Ebrill. Roedd y canlynol yn cynrychioli Adran Bentref Llanberis: Iwan (3), Owain (46), Rhys /53(, Diana (24), Becky (8), Aaron (10), Dafydd (109), Clifford (38), a Claudia (2). Diolch i Mr Rhys ap Elwyn am eu hyfforddi. Roedd y canlynol yn cymryd rhan o Ysgol Brynrefail: Elin (10), Sarah (12), Evan (8), Nicola (8), Marc (20), a Dion Dafydd (12).

Ysgol Dolbadarn: Bu Mr Rhys ap Elwyn yn rhedeg ym Marathon Llundain eleni eto. Cafodd ei noddi gan blant a ffrindiau'r ysgol, a llwyddodd i gasglu dros £150 hyd yma at Gronfa'r Ysgol.

Diolch am y gefnogaeth i'r Noson Bingo a drefnwyd gan Ffrindiau'r

Ysgol, a chofiwch am y Cyngerdd yng Ngwesty Dolbadarn efo Hogia'r Wyddfa, nos Sadwrn, Mai 20. Mae'r tocynnau yn brin cofiwch!

Bwriedir cynnal Ocsiwn Addewidion er budd Cronfa'r Ysgol ym mis Mehefin. Y bwriad yw gwerthu nwyddau a gwasanaethau. Os oes unrhyw un yn fodlon i gynnig rhywbeth i'w werthu yn yr ocsiwn, cysylltwch â'r Ysgol. Er enghraifft, gellwch gynnig gwneud awr neu ddwy o waith — garddio, neu olchi car, neu smwddio, neu lanhau tŷ, neu deipio, neu dorri gwallt, neu waith saer, neu baentio — a bydd pobol yn cynnig prynu'r llafur hwnnw, a'r arian yn mynd i Gronfa'r Ysgol. Os oes busnesau lleol a garai gyfrannu nwyddau, byddem yn falch o glywed gennych. Beth am feddwl am syniadau gwreiddiol i gefnogi'r Ysgol?

Cymdeithas Eglwysi St. Peris a St. Padarn: Yng nghyfarfod misol y Gymdeithas cafwyd noson arbennig o ddiddorol yng nghwmni Mr Ffestin Williams, Penrhyndeudraeth. Roedd Mr Williams, sy'n arbenigwr ar wneud llwyau caru, wedi dod a peth o'i waith i'w ddangos, gan egluro inni darddiad y coedyn a'r achlysur y gwnaed y llwyau ganddo. Mr Ralph Jones gymerodd y rhan ddefosiynol a chroesawodd Mrs Ann Parry-Jones yr aelodau ynghyd a Mr a Mrs Williams.

Cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Mrs Dorothy Williams, a dymunwyd adferiad buan i'r aelodau

sydd heb fod yn mwynhau iechyd ar hyn o bryd.

Mrs Dilys Phillips a Mrs Jean Roberts oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl ac fe'i henillwyd gan Miss Nancy Williams. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt i gyd, ac yn arbennig i Mr Ffestin Williams, am noson mor ddifyr, gan Mrs Nancy Jones, Taliesin.

Eglwys St. Padarn

Festri'r Pasg: Cynhaliwyd yn yr Eglwys, nos Fawrth, 18 Mawrth. Dyma'r Festri gyntaf i'r Parchg Philip Hughes ac yn ei adroddiad diolchodd i blwyfolion Llanberis am y croeso a dderbyniodd ef a'i deulu wrth ymgartrefu yn ein plith. Etholwyd swyddogion fel a ganlyn — Warden y Rheithor: Mrs Audrey Evans; Warden y Bobl: Mrs Margaret Ellis; Trysorydd: Mr Ralph Jones; Ysgrifennyddes: Mrs A. Parry-Jones. Diweddiwyd drwy gydadrodd y Fendith.


Cawl a Chân: Nos Fawrth, 21 Mawrth, cynhaliwyd noson o Gawl a Chân yng Ngwesty Dolbadarn. Cafyd noson ddifyr iawn yng nghwmni parti o Frynrefail, Moelfre, Môn. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Aeth yr elw o dros £300 i Gronfa Apêl Tŵr yr Eglwys. Dymuna'r Rheithor a'r Wardeiniaid ddiolch i bawb am wneud y noson yn un mor llwyddiannus. Diolch arbennig i Mr Aneurin Jones am fod mor barod unwaith eto i roi Gwesty Dolbadarn at ein gwasanaeth.

Undeb y Mamau: Prynawn dydd Mawrth, 4 Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod misol yr Undeb yn Festri'r Eglwys. Y wraig wadd oedd Mrs Maureen Lennon a chafwyd gwledd o hanes Eglwysi Sant Padarn a Sant Peris ganddi. Mwynhawyd y sgwrs yn fawr iawn. Mrs Dilys Phillips gymerodd y rhan ddefosiynol. Diolchwyd i Mrs Lennon, Mrs Betty Humphreys a Mrs Dilys Phillips (am y te) gan Mrs Audrey Evans a Mrs Muriel Morris.

Capel Coch: Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Annibynwyr a gynhaliwyd yn Ebeneser, Deiniolen, ddydd Sul, 9 Ebrill. Mae'r Ysgol Sul yn cael ei chynnal am 2 o'r gloch ar brynawniau Sul, ac estynnir croeso i blant newydd ymuno â ni o hyd.

Wythnos Cymorth Cristnogol: Bydd yr wythnos hon yn cael ei chynnal ym mis Mai, o ddydd Llun y 15fed hyd ddydd Sadwrn yr 20fed. Gwahoddir trigolion y pentref i gefnogi'r casgliad eto eleni, a diolchir ymlaen llaw am bob cyfraniad.

(parhad ar dudalen 18)



Glywsoch chi am y ddau gydweithiwr o Ddeiniolen greodd hafoc yn ddiweddar. Y gyrrwr bysus gofalus yn llenwi ei gar efo dŵl yn lle petrol gan fygu'r pentra; a'r mecanic wedyn yn hollti peipen y Bwrdd Dŵr hefo'i gaib nes bron a gwagio'r Marchlyn!

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Llongyfarchiadau i Dafydd Wyn Jones, 5 Bro Elidir, ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar a hynny ar y cyfle cyntaf — tipyn o gamp. Da iawn Dafydd. Un arall o bobl ifanc y pentref fydd wedi bod yn dathlu cyn i'r rhifyn yma o'r Eco weld golau dydd fydd Daniel Wood, Fron Heulog. Ar yr 29ain o Ebrill bydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau mawr iddo yntau.

Capel Sardis (B): Ar y Sulgwyn eleni bydd Capel Sardis yn dathlu 175 o flynyddoedd ers dechrau'r Achos. I ddathlu'r garreg filltir bwysig a hanesyddol hon, bwriedir cynnal Oedfa Bregethu am 10 o'r gloch ar fore Sul, 4 Mehefin, gyda'r Parchg Emlyn Jones (Tan y Fron Isa gynt) yn gwasanaethu. Am 2 o'r gloch ceir peth o hanes yr Eglwys ac atgofion gan Mr T. M. Basset, y Parchedigion Ifor L. Williams (cyn-weinidog) a William John Lewis (Tan Garret gynt). Am 6 o'r gloch bydd Cymanfa Ganu o dan arweiniad Mrs Enid Griffiths, athrawes cerdd Ysgol David Hughes, Porthaethwy, a gobeithir cael gwasanaeth rhai o aelodau Seindorf Arian Deiniolen. Bydd lluniau o'r Capel ar lechen yn cael eu gwerthu ac fe ddarperir te yn y Ganolfan wedi oedfa'r pwn. Bydd croeso cynnes i bawb i ymuno gyda aelodau Capel Sardis yn y dathliad hwn.

Gwellhad Buan i Valmai Davies, 10 Bro Elidir, sydd yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Yr un yw ein cofion at bawb arall o'r pentref sydd ddim yn mwynhau iechyd rhy dda ar hyn o bryd.

Cymdeithas Lenyddol Undebol: Er y bydd cyfeillion y Gymdeithas wedi cyfarfod ar nos Fawrth, 2 Mai, i drafod a threfnu rhaglen ar gyfer tymor Hydref 1995 - Mawrth 1996, dymunwn pob llwyddiant iddynt yn eu gwaith. Roedd y gaeaf diwethaf yn dlawd iawn heb gyfarfodydd misol y Gymdeithas.

Bingor Teulu: Cymaint fu llwyddiant y fenter a gynhaliwyd ar nos Fercher, 5 Ebrill, yn y Ganolfan, fel y bydd noson arall o'r math yma wedi ei chynnal cyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn. Gan mai dyma'r tro cyntaf i noson o'r fath gael ei chynnal yn Ninorwig cafwyd cefnogaeth a chydweithrediad hapus iawn criw o aelodau Seindorf Arian

Deiniolen yn cynorthwyo gyda'r gwaith ar y noson. Ar ddiwedd noson lwyddiannus — gyda chriw niferus yn mynd adref yn gyfoethocach — diolchwyd i David Lloyd Hughes am wneud y rhan helaethaf o'r gwaith trefnu ac i Bobby Williams, Ellis Wyn Williams, Meirion Jones, Caradog Thomas a Robin Evans, am eu gwaith o lywio'r noson ymlaen yn ddi-drafferth.

Gwasanaeth Bysiau: Yn dilyn y si a fu'n mynd o gwmpas y gallai y gwasanaeth bysiau o Ddinorwig i Gaernarfon gael eu cwtdogi, cafodd y Cynghorydd Glyn Tomos sicrwydd gan Gyngor Sir Gwynedd na fyddai hynny yn digwydd. Er bod peth newid mewn amseroedd rhai o'r teithiau mae'r gwasanaeth yn debyg i'r hyn ydoedd. Yn naturiol mae hyn yn newydd da gan bod gwasanaeth bysiau o'r fath yn allweddol i bawb sydd yn byw yng nghefn gwlad. Diolch i gwmni Crosville am y gwasanaeth ac i Gyngor Sir Gwynedd am eu cefnogaeth er sicrhau fod y gwasanaeth pwysig hwn yn parhau.

Hwyl Haf: Yn arferol ar yr amser yma o'r flwyddyn fe fyddai dyddiad cynnal yr Hwyl Haf yn cael ei gyhoeddi. Yn anffodus eleni, mae'n edrych yn bur debyg na fydd y gweithgaredd hwn yn cymryd lle, oherwydd diffyg cefnogaeth gyda'r gwaith trefnu. Er sawl ymdrech dros y blynyddoedd diwethaf — drwy berswad ar lafar neu lythyr, neu drwy gyfrwng cyfarfod cyhoeddus — siomedig iawn yw yr ymateb wedi bod i ddenu pobl i ddod ymlaen i gynorthwyo gyda'r gwaith trefnu. Mae'n anodd deall paham y mae hynny'n bod, ond eto nid yw'n deg fod y cyfrifoldeb yn disgyn ar rai unigolion yn gyson. Felly, os na fydd Glyn Tomos wedi clywed gennych o fewn yr wythnos, ni fydd dim dewis ganddo ond dod a'r cyfan i ben.

Diolchiadau:

Dymuniad Mrs Mary E. Jones, Ty'n y Fawnog, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Nyrso Penisarwaun, yw diolch yn fawr i bawb a fu mor garedig a chofio amdani ar ddydd ei phen-blwydd yn 97 oed ar 7 Ebrill. Cafodd ddiwrnod wrth ei bodd.

Dymuna Mrs Eirianwen Thomas ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

RHODDION I YSBYTY ERYRI



Mr Nigel Pietrie, rheolwr Gorsaf Dinorwig a staff Ysbyty Eryri gyda'r gadair olwyn drydan a gyflwynwyd i'r ysbyty.

Aeth cynrychiolwyr Gorsaf Drydan Dinorwig i Ysbyty Eryri ddydd Llun, Ebrill 24, i gyflwyno rhoddion i'r ysbyty. Roedd yr Orsaf Drydan wedi rhoi rhodd o £600 i'r ysbyty. Gyda'r arian hwn prynwyd cadair olwyn drydan, gwerth £500, a neilltuwyd £100 tuag gost trip a drefnir ar gyfer cleifion yr Ysbyty Dydd. Cyflwynwyd y

rhoddion i'r ysbyty gan Mr Nigel Pietrie, Rheolwr Gorsaf Dinorwig. Esboniodd Mr Pietrie hefyd bod Gorsaf Dinorwig yn cynnig defnydd bws mini i Ysbyty Eryri, fel y gall yr ysbyty fynd a chleifion am dro ambell i gyda'r nos, pan na fydd y bws mini yn cael ei ddefnyddio yn Ninorwig.

Cyfarfod Coffa: Yn garedig iawn mae Miss Marian Jones wedi paratoi yr adroddiad canlynol ar gyfarfod coffa y diweddar Rennell Williams, Tan y Fron, a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar nos Fawrth, 11 Ebrill, pryd y daeth cynulleidfada dda o bobl at eu gilydd.

Arweinydd y noson oedd Mr David Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian. Talwyd teyrnged gan Mr Dafydd Ellis, Brynrefail, ar ran Menter Fach-wen; y Prifardd Selwyn Griffith ar ran Cyngor Cymuned Llanddeiniolen; Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, ar ran y Ganolfan; a Mr Emrys Hughes, Groeslon Uchaf ar ran y Clwb Snwcer. Tystiodd pob un o'r siaradwyr i'w lafur cariad, ac iddo sawl tro fynd yr ail filltir. Dadorchuddiodd y Prifardd Selwyn Griffith goe dyn gyda phenillion o'i waith ei hun wedi eu cerfio arno. Rhodd y Clwb Snwcer oedd hwn. Dyma'r penillion:

REN (1927-1994)

Mae rwbel hen chwariell
Yn clepian yn y gwynt
Mae dyfroedd iasoer Padarn
Yn dyst o'r dyddiau gynt.

Mae llwybrau ei gynefin
Mor droellog ag erioed
Mae crawen ambell gamfa
Yn disgwyl tramp ei droed.

Mae Tan y Fron yn swatio
Yn dawel ar y bryn
A'r dagrau hallt sy'n cronni
Yng nghrochan dwfn y llyn.

Drwy wydrau'n dagrau, cofiwn
Am ei wasanaeth o,
A llawenhawn wrth ddiolch
Am gymwynaswr bro.

Ar ran y Ganolfan dadorchuddiodd Mr Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, ddarlennfa rhoddedig gan y Ganolfan gyda'r englyn canlynol o waith y Prifardd Meirion McIntyre Huws arni:

ER COF AM RENNELL WILLIAMS

O raid bu'n cau yr adwy — a ninnau
Yn nannedd rhyferthwy
Heb ei nod ddibynadwy
Y mur sy'n agored mwy.

I ddiweddu'r noson cafwyd tamaid i'w fwyta a phaned o de. Diolch i Dduw am i ni gael benthg Ren.

MARIAN JONES

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis
871047

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr
650552

Y LEIN BACH

Wrth ddarllen y stori 'Ffŵl Ebrill' am 'Lein Fach Seiont' daeth lein arall yn fyw i'm cof, sef honno o eiddo Cwmni Rheilffordd Ucheldir Cymru. Cymeraf fantais ar y cyfle hwn i olrhain ychydig o hanes y Lein Bach fel y'i gelwid ar lafar gwlad.

Derbyniais fy addysg gynradd yn yr ysgol fechan ym mhentref Rhostryfan. Saif Ysgol y Rhos ar gwr y pentref ger yr Eglwys, mewn man hyfryd tros ben.

Arferem ni'r plant fynd i'r stesion bob amser cinio ar ôl i ni lyncu ein brechdanau. Y stesion oedd ein cyrchfan feunyddiol ac yno y byddem yn mwynhau egwyl o chwarae'n iach.

Adeilad cadarn oedd y stesion, wedi ei godi â cherrig sets cabledig. Safai'r adeilad hwn ar ganol maes eang, hirsgwâr, ac ar y ddwy ochr iddo gorweddai y ffyrdd haearn. Cof prin sydd gennyf o'r trenau yn rhedeg ond cofiaf am y tryc glo yn dda dros ben, gan y byddem yn cael ffrægan y prifathro pan elem yn ôl i'r ysgol yn y pnawn yn ddu o lwch budr.

Unwaith yn unig y cefais fy nghario mewn trê'n a hynny pan oedd Clifford Clos y Graig a hogiau eraill yn codi'r rheilffordd er mwyn cael yr haearn i wneud arfau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cefais reid gan Clifford o stesion y Rhos i lawr i'r Wernlas Ddu. Ie, dyna fu diwedd y Lein Bach; syrthiodd y stesion yn adfail a buan iawn y meddiannodd natur y cobiau cedyrn lle y gorweddai'r traciau dur.

Ond, yn ddiweddarach, daeth y Lein Bach yn ôl i'r amlwg pan benderfynwyd ei 'hatgyfodi o'i beddrod tawel'. Bu cryn ymrafael rhwng Cwmni Rheilffordd Ucheldir Cymru a Chwmni Rheilffordd Ffestiniog am yr hawl i ddatblygu y Lein Bach. Cwmni Ffestiniog a orfu a mawr obeithir y bydd y ddau gwmni a nodwyd yn cydweithio i adnewyddu yr hen lein.

Yn gyntaf oll bwriedir adeiladu rheilffordd o'r Dinas i Gaernarfon, ac yna o'r Dinas drachefn i Borthmadog drwy'r

Groeslon, Pen-y-groes, etc. Nid oes sôn, ar hyn o bryd, am ailagor y Lein Bach o'r Dinas i Borthmadog drwy'r mynydd, ond rwy'n siŵr y bydd y lein hon yn cael bywyd newydd yn fuan iawn oherwydd rhed y cledrau drwy olygfeydd godidocaf Cymru — calon Eryri.

Ar 21 Mai 1877 y cychwynwyd cario teithwyr o Orsaf Dinas i Fryngwyn, ger Carmel. Nepell o ffermdy anghysbell Tyddyn y Gwydd roedd stesion o'r enw Cyffordd Tryfan. Yno y fforchiai'r rheilffordd i fyny i gyfeiriad Rhostryfan a'r Bryngwyn, tra y rhedai gweddill y lein ymlaen i Orsaf Cwellyn. Ychwanegwyd tri-chwarter milltir o drac i'r Snowdon Ranger ac agorwyd ef yn swyddogol ar 1 Mehefin 1878. Yna, agorwyd dwy filltir arall gan arwain i Orsaf y Wyddfa ar 14 Mai 1881.

Yn y flwyddyn 1885 cynlluniwyd i adeiladu rheilffordd o'r Dinas i Gaernarfon ac hefyd i ymestyn rheilffordd Croesor i Feddgelert a'i gweithio â thrydan. Yn flwyddyn 1901 y ffurfiwyd yr ail gynllun. Ond dau gynllun di-ffrwyth fu'r cynlluniau hynny ac ni wireddwyd y breuddwydion.

O haf 1914 hyd hydref 1916 rhedai tair trê'n yn ddyddiol o'r Dinas i'r Wyddfa ac yn ôl, ond erbyn 1921 nwyddau yn unig a gludid ar y rheilffordd.

Yn y flwyddyn 1922 awdurdodwyd y swm enfawr o £90,000 i ddatblygu'r rheilffordd. Y prif gyfranwyr oedd:

Cyngor Sir Gaernarfon.....	£50,000
Hen Gyngor Glaslyn.....	£3,000
Cyngor Dosbarth Gwyrfaï.....	£5,000
Cyngor Deudraeth.....	£3,000
Cyngor Porthmadog.....	£7,000

Roedd gweddill o'r cyfalaf yn dod o wahanol ffynonellau eraill.

Neilltuwyd y swm o £7,000 i ymestyn y lein o'r Dinas i Gaernarfon, ond fel yr honwyd eisoes, ni wnaed y gwaith hwnnw.

Unwyd Rhyd-Ddu â Chyffordd Croesor, ac yna unwyd â Rheilffordd Ffestiniog. Felly fe redai rheilffordd o'r Dinas i Borthmadog drwy'r gorsafoedd a ganlyn: Waunfawr, Betws Garmon, Salem, Plas y Nant, Snowdon Ranger, Rhyd-Ddu, Pitt's Head (650tr uwchlaw'r môr), Hafod Ruffudd, Beddgelert, Aberglaslyn, Nant Mawr, Hafod y Llyn, Hafod Garregog, Cyffordd Croesor (am Gerrig Hyllidrem), Ynysfor, Pont Croesor, a Phorthmadog.

Dyna reilffordd 21½ milltir o hyd drwy ardal yn meddu ar olygfeydd di-guro. Roedd tair pont, dros 70 troedfedd o hyd yr un, dros Afon Glaslyn, Nant Mawr a Dulif, ac yr oedd un twnnel 300 llath o hyd. Oni fyddai ailagor y rheilffordd hon yn hwb sylweddol i dwristiaeth gan greu diwydiant naturiol gwerth chweil i'n bro?

Rhai o'r trenau oedd y 'Russell', a enwyd ar ôl un o gefnogwyr blaenllaw y cwmni; y 'Baldwin' a welodd wasanaeth yn yr Ail Ryfel Byd; a'r 'Moeltryfan'. Yr oedd dau drê'n arall hefyd, sef 'Snowdon Ranger' a'r 'Beddgelert', ond ni wn beth fu hynt a helyn y rhain.

Roedd y Lein Bach yn boblogaidd dros ben ar un cyfnod a chariwyd sawl un enwog ar ei chledrau. Dywedir i Gladstone deithio ar y lein o'r Dinas i Rhyd-Ddu un tro.

Lled y lein ar drac unionsyth oedd 1' 11½", ac ar dro yn 1' 11¼". Er fod cryn waith dringo o'r Dinas i'r Wyddfa nid oedd y graddiant yn fwy nag 1:40 yn y man serthaf. Cyflymder mwyaf y trenau hyn oedd 15 m.y.a., ac fe roddid pwyslais ar ddiogelwch. Ni chaniateid cyflymder mwy na 5 m.y.a. pan yn teithio drwy lidiartau neu yn agos at orsaf. Credir mai un ddamwain angeuol yn unig a fu yn hanes gyrfar rheilffordd.

Ar y dechrau rheilffordd i deithwyr rhwng bröydd Eryri a thref masnach Caernarfon ydoedd. Âi y trê'n hefyd a chwarelwyr i Chwarel Glan'rafon cyn i honno gau. Cerid rhwng 200 a 300 o chwarelwyr a byddai cryn ganu a chystadlu ar y trê'n bach. Gyda llaw, diddorol yw nodi fel y bu dau gôr meibion yn chwarel Glan'rafon ar un cyfnod. Bu cryn brysurddeb hefyd ar gario tripiâu Ysgolion Sul yn ogystal â mynd i eisteddfodau a gornestau bandiau pres.

Ond fel y gwelodd ffyrdd yr ardaloedd, yn araf, diflannodd y teithwyr cyson a bu'n rhaid dibynnu mwy ar gario ymwelwyr. Rhwng Awst 1934 a Medi 1936 disgynnodd rhif y teithwyr yn isel iawn. Er mai isel oedd y gost o deithio ar y rheilffordd — 2/- o'r Dinas i Feddgelert a 2/6 o'r Dinas i Borthmadog, ac er cario coed a nwyddau fferm i geisio chwyddo'r cyfalaf daeth gyrfar y Lein Bach i ben yn 1937. Rhedodd y drê'n swyddogol olaf o'r Dinas ar 29 Mai 1937; ac unwaith yn unig wedyn y codwyd stêm arni, a hynny i gludo'r celfi i lawr i'r Dinas. Yna, fel y cyfeiriwyd eisoes, codwyd yr holl reilffordd a defnyddiwyd yr haearn ar gyfer arfau rhyfel.

Do, bu'r cledrau'n gorwedd yn dawel dan law greulon natur, ac erbyn heddiw ni welir rhannau o'r cobiau gan ddrain a thyfiant gwyllt. Ceir ambell i bont, megis Pont Caer Moel a'r Wernlas Ddu yn gofebau i urddas y dyddiau fu, ac ambell i golur huddug ar dalcen bwaog . . . 'y mwg lle bu'.

Ond, o sylu'n ofalus ar y cobiau gwelir bod y sylfeini yn gadarn o hyd ac nad oes ond ychydig o waith i adnewyddu gwely y lein.

Dywedir mai proses o ailadrodd ei hunan yw magwraeth hanes. Tybed ai cywir yw hyn yn hanes y Lein Bach ac y gwelir y trê'n unwaith eto fel neidr aflonydd yn ymlusgo drwy Eryri o'r Dinas i Borthmadog?

JOHN H. HUGHES, Llanberis

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Gwesty
Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Mr Austin Thomas, W.R.U. yn hyfforddi plant Cwm-y-glo gyda'r 'Rheolwr' Mrs Jennifer Roberts!

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro, ar ddatlu eu Priodas Rhuddem. Llongyfarchwn hefyd Mr a Mrs John C. Jones, 21 Dôl Afon, ar ddatlu eu Priodas Aur.

Cymanfa'r Annibynwyr: Ddydd Sul, 9 Ebrill, cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen. Yng ngwasanaeth y plant yn y prynhawn cymerwyd rhan gan blant Ysgolion Sul Unedig Nant Padarn a Chapel Coch, Bosra a Deiniolen, a rhoddwyd yr anerchiad gan y llywydd, Mrs Falmai Pritchard. Arweinydd y gân oedd Mrs Einir Wyn Williams, a'r organydd oedd Miss Jean P. Jones.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd y rhan agoriadol gan y Parchg John Pritchard a chymerwyd rhan gan barti Lleisiau'r Gweinydd, sydd yng ngofal Mrs Einir Wyn Williams. Yr organydd oedd Mr John Jones. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant y Gymanfa gan y Parchg John Pritchard.

Adran yr Urdd: Llongyfarchiadau i aelodau cangen Pen-llyn a fu'n llwyddiannus gyda'r cynnyrch celf a chreffft yn Nghylch Arfon. Yn anffodus ni ddaeth gwobr bellach iddynt yn Sir Eryri — ond na hidiwch . . . a daliwch ati!

Diolch i'r rhieni hynny a roddodd o'u hamser i helpu'r plant yn ystod y gaeaf.

Undeb y Mamau: Cyfarfu' aelodau yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, 3 Ebrill am 7 o'r gloch. Dechreuwyd trwy weddi. Yr oedd amryw yn absennol oherwydd gwaeledd ac anfonwyd ein dymuniad am wellhad buan i Mrs Enid Taylor a Mrs Craven sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cydymdeimlwyd â Mrs Joan Williams yn ei phroffedigaeth o golli ei brawd. Trafodwyd amryw o faterion gan Mrs Margaret Latham.

Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mrs Sandra Hughes am ei gwaith cyn iddi ymaelodi â Changen Moelfre. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs J. Williams, Mrs V. Jones a Miss G. Griffith, a diolchwyd iddynt ac i Mrs Hughes gan Mrs J. Side. Rhoddwyd y raffl gan Mrs M. Latham ac fe'i henillwyd gan Mrs G. Griffith.

Bydd Gŵyl Ddeoniaeth Undeb y Mamau yn cael ei chynnal yn Eglwys Crist, Y Felinheli, nos Lun, 22 Mai, am 7 o'r gloch.

Bydd y cyfarfod nesaf, Moes a Phryn (Bring & Buy) ar 1 Mai.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Brafiawn oedd cael croesawu un o drigolion hynaf y pentref atom i'r ysgol ar ddiwedd y tymor. Bu Mr Llew Hughes, Hyfrydle, yn rhannu ei atgofion cynnar am yr Ysgol. Soniodd am y difrod mawr a wnaed i'r adeilad yn y tân yn 1921. Diolch o galon i chwi Mr Hughes am brawn hynod o ddifyr ac addysgiadol.

Mwynhaodd dosbarth y Babanod brynhawn yn Theatr Gwynedd yng nghwmni Rala Rwdins a'i ffrindiau. Perfformiad arall gwerth chweil o waith Angharad Tomos.

Cafodd yr Adran Iau brynhawn prysur a hwyliog yn dilyn sgiliau rygbi. Yr hyfforddwr oedd Mr Austin Thomas o'r W.R.U. Carem ddiolch iddo am ei frwdfrydedd ac am y ddau grys-T a enillwyd gan Carys Jones a Suzanne Radnor.

Treuliodd Branwen, Jennifer a Darren, Blwyddyn 6, ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail yng nghwmni plant Bl. 7. Diolch yn fawr i'r prifathro am y croeso ac i Mrs Carys Jones am drefnu'r ymweliad.

Llongyfarchiadau i Mr James Cullen, Bro Rhythallt, Llanrug, a Mr Gwilym Williams, Bryn, Cwm-y-glo, a enillodd wobrau Clwb yr Ysgol am fis Mawrth.

Cynhelir Ffair Wanwyn yn yr Ysgol, nos Fercher, 17 Mai, am 7 o'r gloch. Bydd pob math o stondinau yno a byddwn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw gyfraniadau i'r stondinau hyn.



Mr Llew Hughes yn Ysgol Cwm y Glo yn sgwrsio am yr Ysgol ar ddechrau'r ganrif.

BRYNREFAIL

! Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cymdeithas y Chwirydd: Cyfarfu'r aelodau nos Iau, Ebrill 6ed, yn y Ffestri. Hwn oedd cyfarfod cyntaf y tymor ac estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y llywydd, Mrs Ifanwy Jones. Roedd y defosiwn hefyd o dan ei gofal a sylfaenodd ei myfyrdod ar Wyl y Pasg. Y gŵr gwadd am y noson oedd Mr Gwyn Hefin Jones a chafwyd orig neilltuol o ddifyr yn ei gwmni yn olrhain sefydlu'r Ysgol Fabanod ym Brynrefail yn 1908 a'i chyfraniad i fywyd y pentref am bron i bedwar ugain mlynedd. Roedd nifer o'r chwirydd oedd yn bresennol yn gyn-ddisgyblion o'r Ysgol a chafwyd atgofion diddorol gan bob un. Diolchwyd yn gynnes i Mr Gwyn Hefin Jones gan Mrs Jennie Hughes. Cydymdeimlwyd â Mrs Jennie Roberts yn ei phroffedigaeth ddiweddar o golli ei brawd ac anfonwyd cofion at Mrs Hannah J. Jones sydd wedi derbyn triniaeth i'w llygad; a dymuno'n dda i Mrs Betty Owen sy'n wynebu triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Rhoddwyd y te gan Mrs Verna Jones a Mrs Jennie Hughes. Dan nawdd y Gymdeithas casglwyd y swm o £75 tuag at Fwrdd y Genhadaeth a'i drosglwyddo i Gronfa Sasiwn Genhadol Chwirydd y Gogledd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 11eg (ac nid ar y 4ydd oherwydd yr Etholidau lleol). Disgwylir Mr John Meirion Morris, Y Griolen, i roi sgwrs.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bydd trefn yr oefaon Sabothol fel a ganlyn yn ystod mis Mai:

7: Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn yng Nghapel Cefnywaun am 2 a 6 o'r gloch.

Diolchiadau

Dymuna Megan a Jack, 21 Dôl Afon, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a theulu pell ac agos, am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch yn arbennig i'r plant, Robin, Meredydd, Cledwyn, Morella, Llinos, a'u teuluoedd am y parti annisgwyl. Diolch yn fawr.

Dymuna Maldwyn a Jean, Bryn Gro, ddiolch am yr anrhegion, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

14: Parchg Gareth Maelor, Llanwnda am 10.

21: Parchg Dilys Myfanwy Davies, Y Felinheli, am 10.

28: Mr Richard Llwyd Jones, Bethel, am 5.30.

Cynhelir yr Ysgol Sul ar y 14eg, 21ain a 28ain, am 2 o'r gloch.

Sefydliad y Merched: Daeth yr aelodau ynghyd i'r Ffestri nos Lun, Ebrill 10fed. Llywyddwyd a chyflwynwyd y gŵr gwad, Mr Derec Owen, Llanfairpwll, gan Mrs Pat Jones. Rhoddwyd sgwrs ddifyr ganddo am wahanol arysgrifau ar gerrig beddau gan ganolbwyntio ar enghreifftiau o fynwentydd ar Ynys Môn. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Betty Owen a Mrs Pat Jones. Rhoddwyd gwobr y mis gan Mrs Eirlys Williams a'r enillydd oedd Mrs Gwenllian Edwards. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fai 22ain gyda Mrs Pat Jones VCO, yn trafod yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blyneddol a gynhelir eleni yn Blackpool.

Priodas: Yng Nghapel M.C. Brynrefail, ddydd Sadwrn, Ebrill 22ain, priodwyd Miss Maria Evans, merch Mr a Mrs Glyn Evans, Minafon, â Mr Dylan Huw Roberts, mab Mr a Mrs Huw Roberts, Glan Gors, Llangaffo. Gweinyddwyd gan y Parchg W. R. Williams, Y Felinheli, a'r organyddes oedd Mrs Lowri P. Roberts Williams. Y morynion oedd Misses Catrin Vaughan Roberts, Eira Wyn Evans a Gwenno Medi Morris, a'r gwas priodas oedd Mr Robert Marc Williams. Yr tywyswyr oedd y Mri John Evans ac Iwan Huw Roberts. Cynhaliwyd y wledd briodas a pharti gyda'r nos yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Treuliodd y melrawd yn lwerddon a bydd y pâr priod yn ymgartrefu yn y Waunfawr. Ein dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.



GWÊL Y
LLYN

Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felin'heli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Cydymdeimlo: Brawychwyd ardal gyfan o glywed y newyddion am farwolaeth, dan amgylchiadau trist, Rhian Elizabeth Davies, Trem Eryri. Roedd Rhian yn 27 oed, ac i sefyll ei arholiadau terfynol yn y Coleg ym Mangor yn ystod yr haf eleni. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i Mr a Mrs Davies, Gareth a Gwenan yn eu profedigaeth lem.

Diolch: Dymuna Jenkin Morgan Griffiths a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a mam-gu yn ddiweddar. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau personol.

Aelwyd yr Urdd: O fewn trwch blewyn y bu i aelodau'r Aelwyd golli

ddraig. Er ei bod yn oer y prynhawn hwnnw fe fwynhaodd y plant y profiad yn fawr iawn. Roedd Mr Thomas hefyd wedi ei blesio'n arw â sgiliau trin pêl y genethod a'r bechgyn.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn neuadd yr Ysgol Gynradd, dan lywyddiaeth Glenys Griffiths. Croesawyd y gŵr gwadd, y Parchg Gwynfor Williams, a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmi yn sgwrsio, gyda chymorth sleidiau, am ei waith o achub oddi ar fynnyddoedd Eryri.

Cydymdeimlwyg ag Ann Elis yn ei phrofedigaeth o golli ei mham yn ddiweddar.

Y gwestwragedd oedd Delyth Williams a Carys Williams, ac



Plant yr ysgol gynradd yn ymarfer eu sgiliau rygbi yng nghofal Mr Austin Thomas.

yng nghystadleuaeth Cwis 2000 yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dim ond hanner marc oedd rhwng yr enillwyr, sef Aelwyd Llanbrynmair ac Aelwyd Bethel. Dyma'r tro cyntaf i'r aelodau gystadlu yn yr oedran yma, felly, llongyfarchiadau iddynt am wneud mor dda.

Yr ail safle oedd hanes y tîm pêl-rwyd hefyd. Bu iddynt hwythau golli yn Aberystwyth yn erbyn Aelwyd Rhuthun. Gwell lwc y tro nesaf!

Pob dymuniad da i'r grŵp dawnsio disgo dan 19, dan hyfforddiant Miriam Thomas, ac i'r parti llefaru dan 25, dan hyfforddiant lorwerth Williams, sydd yn cynrychioli Aelwyd Bethel yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Preseli ddiwedd y mis.

Eisteddfod Bentref Bethel: Yn dilyn llwyddiant yr Eisteddfod y llynedd gwahoddir pawb sydd â diddordeb mewn trefnu eisteddfod eleni i ddod i'r Neuadd Goffa, nos Fercher, Mai 17, am 7.30 p.m.

Yr Ysgol Gynradd: Enillwyr Clwb 100 yr ysgol am fis Ebrill oedd — £20: Mr Alwyn Williams, Seion (68); £15: Mrs Pat Owen, Cefn Cynrig (90); £10: Mr Maldwyn Hughes, 27 Bro Rhos (112); £7: Mrs Mary Wyn Jones, 5 Y Ddôl (66) £5: E. Owen, Wern Las, Saron (63). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Yn ystod mis Mawrth ymwelodd Mrs Roberts Williams a phlant blwyddyn 4/5 ac Oriol Môn i weld lluniau'r arlunydd Tunnicliffe. Buont yn astudio a gwerthfawrogi gwaith yr arlunydd fel rhan o'u thema tymhorol.

Yn ystod y tymor daeth Mr Austin Thomas, yr hyfforddwr rygbi, i'r ysgol am un prynhawn i hyfforddi'r adran iau mewn sgiliau rygbi'r

enillydd y raffl oedd Mary Evans.

Enillwyr Clwb 200 y Neuadd Goffa: Enillwyr gwobrau mis Mawrth oedd — £20: Emma Bardsley, Windy Corner (3); £10: William Humphreys, Llwyn Hudol (60); £5 yr un i: Emyr Price, 5 Tan y Ffordd (169); Ellen Morris, Fachell (26); Pat Hughes, 11 Stad Eryri (42); Manon Gwynedd, Cadnant (214); Ruth Jones, 9 Y Ddôl (158); Margaret Williams, Llanddwyn (82); Pat Owen, Cefn Cynrig (116); Gwyneth Williams, Llain yr Ardd (65).

Ateb i'r cwestiwn snwcer: Geraint Jones (gŵr y gantores Margaret Williams). Gyda'i gyd-sylwebydd, John Evans, mae Geraint wedi ennill cystadleuaeth y dwblau i aelodau'r Wasg sy'n mynychu'r bencampwr-iaeth. Mae mab Geraint hefyd yn chwaraewr snwcer o gryn safon.

**Wavell
Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG**

**Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO**

**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440



Stan Morgan (trysorydd) a Dafydd Pritchard (cadeirydd) yn trosglwyddo elw Treialon 1994 i Dr White, Dr Roberts a Dr Parry.

Treialon Cŵn Defaid: Bu deng mlynedd ers ail-sefydlu Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch ac mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar rhannwyd y swm o £400 i nyrsus ardal plwyfi Llanberis, Llanddeiniolen, Llandinorwig a Llanrug, sef elw Treialon 1994. Derbyniwyd yr arian ar ran y nyrsus gan y Meddygon Huw Roberts, Alwyn Parry a P. White.

Rhennir swm tebyg yn flynyddol, yn bennaf i'r nyrsus, a gwerthfawrogi yn fawr y gefnogaeth a gafwyd gan yr ardalwyr, y busnesau lleol a Gorsaf Bwer Dinorwig dros y blynyddoedd. Drwy hyn sicrhawyd llwyddiant i'r Treialon, sydd bellach yn enwog ac yn denu cystadleuwyr o bob rhan o'r wlad.

Colled i'r Ardal: Drwg gennym glywed fod siop a'r swyddfa bost yn y Nant yn cau ar 3 Mai. Bydd yn chwith mawr i drigolion y pentref ar ei hôl. Dymunwn yn dda i Prydwen Pritchard sydd wedi cadw'r siop a'r post ers y pedair blynedd ddiwethaf.

I Ddyfnaint am Dro: Nid dyma'r tro cyntaf i griw Llanberis a Deiniolen ymuno â gofalaeth Colwyn ar drip gyda'n cyn-weinidog, y Parchg Trefor Lewis. Buom eisoes ddwywaith yn Derby ac unwaith yn Aberystwyth. Y tro hwn Dyfnaint oedd y lle delfrydol. Mae'r Methodistiaid Wesleiaidd a Chalfinaidd yn ymuno â'i gilydd i gefnogi gwestai ledled y wlad sydd ganddynt, ac felly yr oedd y tro hwn, gyda Sidmouth yn gyrchfan. Nid yn unig mae Dyfnaint yn wlad



Gohebydd yr Eco, Mr Elwyn Searell Jones gyda'r gweithwyr fu'n adnewyddu gwaith carthffosiaeth Bro Glyder yn ddiweddar.

Cydymdeimlo: Bu farw Owen Humphreys, neu Now Llew, yn ei gartref yn Llanrug ar 19 Ebrill. Roedd yn perthyn i un o hen deuluoedd y Nant, lle bu ei dad yn flaenllaw gyda'r capel. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu profedigaeth.

Geni: Llongyfarchiadau i David Kendall a Lucy Alcock, yr Hen Ysgol, ar enedigaeth eu mab bychan, Luke Mathew, ar 7 Ebrill.

Cofion: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Mr Tom Gwyn Pritchard sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Tacluso'r Pentref: Mae'n dda gweld bod y cynllun adnewyddu gwaith carthffosiaeth Bro Glyder yn dirwyn i ben. Mae'r stryd wedi ei thacluso erbyn hyn.

amaethyddol mae hefyd yn meddu ar borthladdoedd pwysicaf y wlad. O Ddyfnaint y daeth y Searell cynta' i ogledd Cymru, ganrif a hanner yn ôl, gan weithio yn y diwydiant copr — mae un o'r gweithfeydd ym Meddgelert heddiw, sef Sygun. Fe welwch, felly, bod yna dynfa o ddau gyfeiriad i mi ymweld â Dyfnaint.

Roedd y Gymdeithas ar ôl cyrraedd yno hefyd yn ddelfrydol a Mr a Mrs Lewis yn trefnu ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Ar y ffordd yn ôl cawsom gystadleuaeth i ddyfalu faint o filltiroedd oeddym wedi eu trafaelio. Y goreuon yn y gystadleuaeth oedd Mrs Beti Humphreys a Mrs Margaret Cynfi.

GWILYM SEARELL JONES

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Ebeneser a Chefnywaun: Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Annibynwyr a gynhaliwyd yn Ebeneser, ddydd Sul, 9 Ebrill. Cyflwynwyd eitem gan y plant yn ogystal ag arwain y gwasanaeth dechreuol.

Bydd Cyfarfod Gweddi yr Ofalaeth yn cael gynnal yn Ebeneser am 7 o'r gloch, no lau, 11 Mai.

Cymanfa'r Annibynwyr: Cymerwyd rhan yn y Gymanfa eleni gan Ysgolion Sul Deiniolen (Ebeneser a Chefnywaun), Penisarwaun, a Chapel Coch, Llanberis. Llywyddwyd oedfa'r prynhawn gan Mrs Falmia Pritchard ac oedfa'r hwyr gan y Parchg John Pritchard. Mrs Einir Wyn Williams oedd yn arwain y Gymanfa, a gwerthfawrogwyd ei pharodrwydd i ddod â'i chôr, Lleisiau'r Gweunydd, gyda hi i gyfarfod yr hwyr. Cyflwynwyd caneuon ac emynau addas ar gyfer Gŵyl y Pasg ganddynt. Mr John Jones a Miss Jean P. Jones oedd yr organyddion. Diolch am bob cefnogaeth i'r Gymanfa ac i aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu gwaith.

Cymanfa'r Presbyteriaid: Bydd y Gymanfa yn cael ei chynnal yng Nhefnywaun, ddydd Sul, 7 Mai, am 2 a 6 o'r gloch. Mrs Eurgain Eames fydd yr arweinydd gwadd. Estynnir croeso cynnes i'r ddau gyfarfod.

Cyngor Eglwys Deiniolen: Cynhaliwyd oedfa Gymundeb yng Nghefnywaun, nos lau Cablyd, 13 Ebrill, dan arweiniad y Parchg John Pritchard a'r Parchg Tegid Roberts. Daeth cynulleidfa gref ynghyd i ddatlu'r Pasg. Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, 15 Mai, ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Y Gymdeithas Lenyddol: Daeth tymor y Gymdeithas i ben a chafwyd y swper blynyddol yn Nhafarn y Rhos, Rhostrehwfa, nos lau, 6 Ebrill. Cafwyd bwyd da a noson hwyliog yng nghwmni'r gŵr gwadd, y Parchg W. R. Williams, Y Felinheli. Rhoddodd sgwrs ddi-ddorol am hen gymeriadau gan ddefnyddio ambell i decell a llyfr a siswrn a chydio hanesyn wrthynt.

Apêl Mynwent Eglwys Crist, Llandinorwig: Mewn rhifyn diweddar o'r 'Eco' gwnaed apêl am gymorth ariannol tuag at wella cyflwr gwlyb

y fynwent. Bellach medrir adrodd fod y gwaith wedi ei gwblhau ac ein bod fel cyngor wedi ein synnu gan ddi-ddordeb a haelioni ein cymdogaeth. Daeth cyfraniadau o bob cwr, cyn belled a'r America hyd yn oed.

Felly, fel Cyngor Plwyfol Eglwysig Llandinorwig, dymunwn ddiolch yn ddi-ddorol i chwi am eich rhoddion, a mawr obeithiwn y bydd llwyddiant i'r gwaith yn fendithiol i ni oll.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, nos Lun, 3 Ebrill. Cafwyd noson ddifyr yng nghofal y Parchg Tegid Roberts a Mrs Margaret Griffith. Buont yn olrhain Cyfrifiad teuluoedd oedd yn byw yn nhyddynnod Llandinorwig ym mhlwyf Llanddeiniolen yn y flwyddyn 1891. Roedd gan rai ohonom gof am y tyddynnod gydag enwau hyfryd arnynt, megis Clytiau Teg, Erw Wen, Trosgol, Corlannau, a llawer mwy. Erbyn hyn mae llawer ohonynt yn adfeilion. Difyr iawn hefyd oedd cael detholiad o Gyfarwyddiadur Post 1886 o Ebeneser a Chlwt-y-bont. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Diolch i'r Parchg Tegid Roberts a Mrs Margaret Griffith am noson mor ddi-ddorol.

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru am y misoedd diwethaf: Ionawr — £10: Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog; £5: Mr Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. Chwefror — £10: Mr Barry Lloyd Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont; £5: Mrs Gwladys Jones, 18 Hafod Olau. Mawrth — £10: Miss Elen Wyn Jones, Tyn y Fawnog, Dinorwig; £5: Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel. Ebrill — £10: Mr Ken Jones, 7 Tai Lôn Las £5: Mr Eilir Jones, 2 Tai Gwyrfa.

Marwolaeth: Yn dawel ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, ar 24 Mawrth, bu farw Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen, yn 69 mlwydd oed.

Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus o dan ofal y Parchg John Pritchard, Parchg O. E. Evans, a Mr Ifan Hefin Williams, yng Nghapel Ebeneser ac yna ym Mynwent Macpela, ar 28 Mawrth.

Bu Beti Wyn yn hynod o ffyddlon i waith eglwys i'r pentref. Aelod yng Nghapel y Tabernacl oedd hi, ond pan gauwyd y capel hwnnw parhaodd i fynychu oedfaon undebol

yn Nisgwylfa, Cefnywaun ac Ebeneser. Yr oedd yn deyrngar hefyd i gymdeithasau fel Merched y Wawr, Clwb Elidir a'r Gymdeithas Lenyddol. Mwynhaodd fywyd i'r eithaf. Roedd yn wraig boblogaidd a hoffus, a bydd ei llu cyfeillion yn gweld ei cholli yn fawr. Diolch am gael adnabod un mor annwyl a hwyliog ac a gyfrannodd gymaint i fywyd ei phentref.

Diolchiadau:

Dymuna teulu'r ddiweddar Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen gynt, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i chymdogion am bob caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad. Diolch hefyd am y blodau, cyfraniadau tuag at Blas Pengwaith, ac hefyd i E. W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau.

Dymuna Mrs E. Morris, 7 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau a blodau a dderbyniodd tra yn yr ysbytai yn ddiweddar. Diolch hefyd am bopeth a dderbyniodd ar ddatlu ei phen-blwydd yn 50 oed. Diolch o galon i bawb.

Dymuna teulu y diweddar Morris Williams (Moi Bara), Sŵn-y-gwynt, Ffordd Fictoria, Caernarfon (gynt o Ddeiniolen), ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a



Llongyfarchiadau i Elfed M. Morris, Llechwedd, Deiniolen, am ennill y wobr gyntaf ar yr unawd o dan 15 oed yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Eryri. Bydd Elfed yn mynd ymlaen yn awr i gystadlu yn y Genedlaethol ym Mro Preseli yn niwedd mis Mai.

ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Dymuna Gwen Lloyd Roberts, Awel-y-mynydd, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymuna hefyd ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn bedwar-ugain oed.

CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

Enwau Creaduriaid a Phlanhigion

Beth yw *great crested newt* neu *llyfrothen* yn Saesneg? Beth yw mwy nag un *torgoch*, ac i ba deulu o bysgod y mae'n perthyn? Dyma'r math o gwestiwn y cewch chi ateb iddo yn y gyntaf o bum cyfrol a gyhoeddir gan Gymdeithas Edward Llwyd a fydd yn rhestru enwau safonol anifeiliaid, planhigion a phryfed.

Y gyfrol gyntaf yw *Creasuriaid Asgwrn-cefn*, sydd yn cynnwys pysgod, adar, mamoliaid a'r amffibiaid. Cynigir gan amlaf un enw i bob rhywogaeth (ar wahân i rai fel *cadno/llwynog* lle nad yw'n bosibl rhoi blaenoriaeth i'r naill enw na'r llall). Pwrpas safoni fel hyn yw ceisio caniatáu i ni drafod a chyd-ddeall byd natur ar draws ffiniau bro a rhanbarth heb wneud cam â thafodiaith neb. Disgwylwn, serch hynny, y byddwn i gyd yn parhau i arddel

ac i ddefnyddio yn enwau lleol, a'u casglu hefyd o bryd i'w gilydd, wrth ymhel â byd natur ar raddfa bro.

A ydych chi felly yn athro, myfyriwr, naturiaethwr, neu'n un efallai sydd â dim mwy na diddordeb cyffredin mewn byd natur? Os ydych, yna beth am anfon am eich copi chi o enwau *Creaduriaid Asgwrn-cefn*? Anfonwch eich £3.50 i Twm Elias, d/o Plas Tan y Bwlch, Mantwrog, Blaenau Ffesitiniog, Gwynedd. Cewch gykfle heryd ar stondin y Gymdeithas ar faes y Brifwyl i brynu copi ac, efallai, i ymuno â'r Gymdeithas er mwyn gwerthfawrogi ein treftadaeth yn ysbryd yr athrylith a'r naturiaethwr mwr o Gymro, Edward Llwyd ei hun.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANBERIS

Parhad o dudalen 12

Cadair Eisteddfod: Llongyfarchiadau i Bryn Jones, Dôl Elidir, ar ennill cadair Eisteddfod y Groeslon am yr eildro. Ysgrifennodd stori fer, a chafodd glod gan y beirniad, y Prifardd Gerwyn Williams.

Diolchiadau

Dymuna Olwen Robers, Argoed, Stryd Warden, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Maxwell Jones ddiolch o galon am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, a'r rhoddion hael tuag at Uned y Galon, Ysbyty Gwynedd. Diolch arbennig i Dr Williams, Meddygfa Llanberis, staff Ysbyty Gwynedd a Broadgreen, Lerpwl. Diolchir hefyd i'r Parchedigion Gwynfor Williams a John Pritchard, Miss Hefina Jones yr organydd, swyddogion Capel Jerusalem, ac i Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones am eu trefniadau trylwyr.

Dymuna John H. Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis, ddatgan ei werthfawrogiad diffuant i bawb a ddangosodd bob arwydd o garedigrwydd tuag ato yn ystod ei waeledd yn Ysbyty Llandudno, ac yna gartref. Diolch hefyd am y llu galwadau ffôn a chardiau, yn ogystal a'r holl ymweliadau.

Dymuna Betty Williams, 18 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion ac ymweliadau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb yn Ward Tudno, Ysbyty Gwynedd, am eu holl ofal amdani.

Dymuna Anwen a Dafydd Lloyd Jones, 15 Stryd William, Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Ifan Dafydd.

**CYMANFA
PRESBITERAIDD
DOSBARTH PADARN**
Cefn y Waun, Deniolen
Dydd Sul, Mai 7fed
am 2 a 6 o'r gloch


Cynllun Carthffosiaeth gwerth £½ miliwn yn Llanberis

Dechreuir gwaith ym mis Mai eleni ar gynllun £500,000 a baratowyd gan Gyngor Bwrdeisdref Arfon i wella system carthffosiaeth Llanberis. Ariennir y cynllun gan Dŵr Cymru ac fe gyflawnir y gwaith gan Roger Hughes Civil Engineering o Fae Colwyn, ac fe gymer 32 wythnos i'w gwblhau. Bydd y cynllun, a ddyluniwyd gan ymgwymerwyr amgylcheddol Acer Wallace Evans, yn lleihau'r posibilrwydd o lifogydd yn rhannau isaf y pentref ac yn cyfyngu arllwyfiadau i Lyn Padarn yn ystod stormydd.

Mae'r cynllun yn cynnwys gosod pibellau newydd â diamedr mwy o dan gae pêldroed Loco Llanberis a fydd yn storio'r dŵr glaw yn ystod stormydd ac yn caniatáu ei bwmpio yn ddiweddarach i'r gwaith carthffosiaeth a'i drin. Croesawyd y cynllun gan yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol gan y defnyddir Llyn Padarn yn helaeth i hamddena.

Atgyweirir carthffosiaeth trwy'r pentref cyfan ond ni chaniateir i'r ymgwymerwyr weithio yn y Stryd Fawr, Stryd y Farchnad na'r ffordd osgoi (A4086) yn ystod tymor gwyliau'r haf.

OSMOND SHAW DEINIOLEN


GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Nia a Huw Ceiriog, 4 Erw Wen, ar enedigaeth plentyn, mab cryf o'r enw Owain.

Llongyfarchiadau i Gwenno Huws, Tŷ Mawr, sydd wedi ennill gradd M.A. ym Mhrifysgol Bangor.

Ysgol Orau'r Sir: Mae Ysgol Gynradd y Bontnewydd wedi ennill rownd Gwyned o gystadleuaeth Cwis Llyfrau Cymraeg i blant gan guro Ysgol Eifion Wyn ac Ysgol Morswyn yn Theatr Gwynedd. Roedd Geraint Roberts yn y tîm.

Gwasanaethau'r Sul: Disgwylir y

canlynol i wasanaethu yn ystod mis Mai:

7: Cymanfa'r Fro.

14: Parchg Huw John Hughes, Porthaethwy am 2.

21: Y Gweinidog, Parchg W. R. Williams am 10.

28: Parchg Gareth Maelor am 2.

Mehefin:
2: Y Gweinidog, Parchg W. R. Williams am 2.

Tynfa Fisol: Enillwyr tynfa fisol Pwyllgor y Cae Chwarae oedd — £40: Mrs M. Henderson, 6 Erw Wen (78); £25: R. M. Roberts, 9 Bryn Gof (57); £15: S. P. Jones, Bryn Eglwys (88); £5: E. Roberts, 3 Erw Wen (63). Diolch i bawb am eu cefnogaeth barhaol. Bwriedir codi siglen crud ychwanegol cyn bo hir.
Etholiad: Am y tro cyntaf ers i Ward Caeathro gael ei chreu yng Nghymuned Waunfawr bydd etholiaeth rhwng tri ymgeisydd am ddwy sedd ar 4 Mai. Pob hwyl i ddemocratiaeth!

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



DRAENOG



Gweithwyr siop firwythau ym Mangor oedd wedi dechrau mwynhau tôst i de ddeg . . . ond buan y tarddwyd ar eu mwyniant pan gerddodd cwpwl o Ddinorwig i mewn i nôl y toaster yr oeddent wedi'i adael ar ôl ar y cownter yno. Peth sobor yw mynd yn hen! Pob hwyl ar ddathlu pen-blwydd arbennig yr haf 'ma.



ANTUR WAUNFAWR

**SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR**

**Basgedi Blodau Sych ★ Siwtni
Jams ★ Briwgig ★ Siampw,
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi
Teganau Meddal ★ Mobiles Pren**
Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)
a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris
am ddim
BANGOR
(01248) 364493
unrhyw adeg




**J.M.
JONES
A'I FEIBION**
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

CROESAIR MAI




AR DRAWS

- Mae'r swm yn dod yn ôl, a hynny'n rhoi tro i Satan . . . (6)
- . . . ac mae rhywbeth yn wylaidd yng nghymeriad Carys Williams (5)
- Sefyllian o gwmpas, er nad yw hynny'n wir am ras o'r corff (7)
- Mae'r dyn yn well, er ei fod bron a marw o eisiau bwyd (8)
- Dim ond terfysg mewn paned o de, yn ôl y Sais (5)
- Meddiant (4)
- Gweler y nodiadau.
- Bonheddwr o radd uchel (4)
- Oes dyn call a aned yn ei ddechrau? (5)
- Teithio (mewn llong ar y dechrau) yn achosi cablu (8)
- Gohebydd pigog yr Eco! (7)
- Nid yw'n dechrau gorchuddio'r haul, ond mae'n agos iawn (5)
- Ei goginio ar radell, dyna a ddigwydd i'r goli os bydd wedi meddwi (6)

I LAWR

- Mae'n ddigalon pan mae'r athro'n gorfod dod yn ôl yng ngofal y llwyrymwrthodwr (5)
- Mae'r creawdwr yn cyrraedd i greu corff rheoli (8)
- Nwy diynni yn goleuo'r nos (4)
- Cyfarwyddo (5)
- Ystyria 'nawr, bendefig . . . (4)
- Mae'n rhaid i'r Sir golli traean o'r rhew cyn y bydd yn gynnes (4)
- Llencyndod (9)
- Ffrindiau'n dod yn ôl i afael ynddi am ychydig (4)
- Arteithio i droi Ben y tu chwithig allan (8)
- Drychiolaeth (4)
- Mae'r cyntaf o'r siediau yn beth a addolir (5)
- Defnydd gwyn, caled. Cyfraniad eliffantaidd i fyd y gân (5)
- Defnydd hynaws o'r ddaear? (4)
- Lliw sanctaidd (4)
- Mae'n bosib ennill ychydig bach o amser o gael rhagor i ganu efo'i gilydd (4)



ATEBION CROESAIR EBRILL

O ystyried fod o leiaf ddau gam-gymeriad wedi ymddangos yn y cliwiau a osodwyd ar gyfer croesair Ebrill, pleser o'r mwyaf oedd derbyn dwsin ymgais i'w ddatrus, a'r cyfan, ond un, wedi dyfalu'n gywir a chael yr aebion iawn. Nid gair saith llythyren oedd ei angen yn 10 ar draws (1,6) ddylai fod wedi ymddangos, ac nid (7); ac fe ddylai fod wedi cyfeirio at unigolyn, nid pobl. Roedd y cerydd a dderbyniwyd gyda rhai ymgeision yn gwbl haeddiannol — sori!!

Rwy'n cynnwys ymgais Mrs Ceridwen Williams, Llanrug, ymysg y rhai cywir, er ei bod hi wedi creu gair newydd, sef *ynwannwr* mewn ymgais i lenwi'r blychau.

Catherine Jones, Rhiw; Mr E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Ceinwen Williams, Bethel; E. E. Jones, Rhoshirwaun; N. Hughes,

Cwm-y-glo; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Nansi Davies, Rhuthun; Olwen Owens, Llanberis; Joan Hughes-Jones, Rhiw, ac Elfed Evans, Llanllechid, oedd y gweddill a atebodd yn gywir.

Ymysg y cliwiau crypzig i'r gair DRAMA, aeth tri ohonoch ar ôl amagramau o *Armada* a *Madarch*, gan gyfeirio at y llythyren ychwanegol, fe guddiodd un y gair yn enwau *Pedr a Martha*, y *meddyg yn amheus a'i yw yn un fer meddai* un arall, daeth dau ar ôl y gair *Dram* yn Saesneg.

Rwy'n cael trafferth i ddewis rhwng ymdrech Elfed Evans, sef *Cyfreithiwr o America wedi llyncu hwrdd Saesneg! Dyna i chi waith llenyddol*; ac un Jean Hughes-Jones, sef *Ennill dwy radd am y cynhyrchiad*. Am ei fod yn fyrach yn unig mae £5 mis Ebrill yn mynd i **Jean Hughes-Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli.**

Efallai y bydd y dasg y mis hwn ychydig yn haws nag arfer, ond mae gen i deimlad y bydda i'n difaru wrth geisio cloriannu. Yn 16 ar draws rwyf am i chi ddefnyddio ddiwr air tair llythyren o'ch dewis chi, cyn belled â bod y llythyren N yn y canol, ac yna creu cliw crypzig iddo. Yr atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 25 Mai, os gwelwch yn dda.

Dyddiadur y Mis

MIS MAI

- Gwener** **PENISARWAUN:** Y Cylch Meithrin yn cynnal Reidio Beic Noddedig a Sêl Cist Car yn yr Ysgol Gynradd i ddechrau am 6 o'r gloch.
- Sul** **YR ARDAL:** Cymanfa Ganu'r Presbyteriaid yng Nghefnywaun, Deiniolen am 2 a 6 o'r gloch.
- Llun** **LLANBERIS:** Cyfarfod Cofio Diwedd yr Ail Ryfel Byd. **PENISARWAUN:** Dadorchuddio Cofeb i'r diweddar Archesgob Gwilym Williams.
- Mawrth** **LLANRUG:** Merched y Wawr — Cyfarfod Blynyddol. **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau — Moes a Phryn (Bring & Buy).
- Mercher** **LLANRUG:** Plaid Cymru — Helfa Drysor, yn cychwyn o Ysgol Brynrefail am 6.30 o'r gloch.
- Iau** **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwirydd — sgwrs gan Mr John Meirion Morris.
- Llun** **WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL (Mai 15-20).** **DEINIOLEN:** Cyngor Eglwysi — Cyfarfod Cymorth Cristnogol am 7 o'r gloch.
- Mercher** **BETHEL:** Pwyllgor yr Eisteddfod Bentref am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa. **CWM-Y-GLO:** Ffair Wanwyn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch.
- Iau** **LLANRUG:** Plaid Cymru — cyfarfod yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch.
- Sadwrn** **LLANBERIS:** Ffrindiau'r Ysgol yn cynnal Cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa, yng Ngwesty Dolbadarn.
- Llun** **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched.

RHOIDDION

£10: Mrs Annie Jones, Eilionwy, Llanrug; G. W. Evans, Blaenau Ffestiniog; Teulu y diweddar Morris Williams (Moi Bara), Caernarfon, gynt o Ddeiniolen.
 £5.50: Mrs J. Williams, Llangefni.
 £5: Mrs Sally Thomas, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Mrs Gaenor Williams, Penterfyn, Llanrug; Mr a Mrs Glyn Williams, 18 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Mary E. Jones, Ty'n y Fawnog, Dinorwig; Mr J. Hugh Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis; Mrs Maxwell Jones, Llanberis; Teulu y ddiweddar Mrs Betty Wyn Davies, 82 Pentre Helen, Deiniolen; Mary a Gwynn Davies, Bryn Eithin,

Waunfawr; Di-enw, Bethel; Brian Williams, Bethel.

£3.50: Mr Meurig Owen, Llundain.
 £3: Olwen Roberts, Argoed, Stryd y Warden, Llanberis; Teulu y ddiweddar Megan Page Hughes, Pen-y-groes; Anwen a Dafydd Lloyd Jones, 15 Stryd William, Caernarfon; Mrs E. Morris, 7 Ffordd Deiniolen; Mrs Annie Roberts, Fron Olau, Waunfawr.

Dymuna teulu y ddiweddar Megan Page Hughes (Pen-y-groes) ddatgan ei diolch i staff Plas Pengwaith, Llanberis am y gofal a roddant iddi dros y pum mlynedd ddiwethaf.

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
 MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
 CANOLFAN CARPEDI
 WAUNFAWR**

Ar Agor
 9-7pm
 9-5pm Sadwrn
 Ar Gau
 Sul a Mercher

Ffôn/ffacs: 650291

Dewis eang o Welyau a '3P/Suites'.
 Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

CHWARAEON

DILYN Y TRYWYDD



Eifion Jones o Lanrug gyda'r Cap a enillodd drwy chwarae i dîm pêl-droed dan 15 oed Cymru.

Braf yw cael dilyn ambell i stori, yn enwedig os yw'r diwedd glo yn un llwyddiannus.

Gellir datgan fod Eifion Jones, Llanrug, wedi ennill ei gap o dan 15 oed i Gymru. Rhaid oedd teithio i Le Havre yn Ffrainc i wireddu'r freuddwyd. Daeth i'r maes yn yr ail hanner ac yn ôl sylwebyddion rhoddodd berfformiad aeddfed, er i Gymru golli o 4-0.

Yr wythnos ganlynol chwaraeodd mewn gêm di-gap i dîm o dan 14 oed Cymru, yn erbyn Luxembourg ar faes y Porth yn y Rhondda. Dyma oedran cywir Eifion ar hyn o bryd a llwyddodd Cymru i ennill o 2-0. Mae Eifion yn disgwyl yn eiddgar i glywed a yw wedi ei ddewis ar gyfer gêm nesaf tîm o dan 15 oed Cymru yn

erbyn Yr Almaen, yng Nghaerdydd ym mis Mehefin. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddo. Gobeithio y bydd rhaid trefnu trip i Gaerdydd!

Llwyddodd Delyth Evans o Fethel i gwblhau Marathon Llundain, yn ei chynnyg cyntaf, mewn ychydig dros bum awr. Roedd yn ddiwrnod chwilboeth ac roedd Delyth wedi ei phlesio gyda'i hamser ac am geisio cystadlu eto y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ar ei hamser. Yr oedd yr holl ymarfer caled ar hyd y bryniau wedi bod o fantais iddi — er anodd yw Marathon Llundain gan ei bod i gyd ar dir gwastad. Mae'n gryn grefft felly i gael y cyflymder cywir ym mhob rhan o'r râs. Canmolai Delyth yr ysbryd gwych sy'n bodoli ymysg y rhedwyr o wahanol

CYFRANIAD Y TELEDU

Dros gyfnod y Pasg treuliais dridiau yng ngorllewin Iwerddon. Cefais gyfle yno i wyllo darpariaeth chwaraeon RTE (teledu y Weriniaeth), a darllen colofnau'r wasg yno. Yn Iwerddon mae yna rwyg amlwg rhwng dilynwyr y gêmiau traddodiadol — pêl-droed Gaelleg a hurling yn benodol — a'r gêmiau 'estron' fel pêl-droed, criced a rygbi. Y mae dadlau brwd dros y dŵr oherwydd bod tueddiad amlwg i'r ieuencid symud o'r gêmiau traddodiadol at bêl-droed yn benodol. Rhoddir llawer o resymau am hyn. Un rheswm yw'r gred bod y gêmiau traddodiadol yn cael eu rhedeg gan hen bobol sydd â gwerthoedd gwahanol i'r oes fodern. Ai delfryd yw bod yn amatur yn y dyddiau yma? Ni chaiff aelod glwg Gaelleg (GAA) ymaelodi â'r tîm pêl-droed neu'r tîm rygbi lleol. Mae adlais yma o'r tyndra sy'n bodoli rhwng rygbi'r undeb a rygbi'r gynghrair. Ystyrrir bod i rywun fwynhau'r ddwy gamp fod yn drosedd. Wedyn mae yna ddadlau hefyd ynglŷn â'r modd y mae arian y cymdeithasau yn cael eu gwario — adlais eto o gymdeithasau pêl-droed a rygbi Cymru. Mae'r GAA yn bwriadu gwario £20 miliwn ar

ddatblygu Croke Park, eu prif deml yn Nulyn. Dadl y bechgyn sy'n ymwneud â'r gêm yn lleol yw y dylid gwario'r arian ar ddatblygu'r gêm. Ai dyma'r un ddadl â'r ddadl ynghylch Stadiwm Cenedlaethol Cymru? Diddorol oedd un sylw yn yr *Irish Times* — wedi datblygu Croke Park fe fydd yn hawdd ei lenwi ar gyfer y gêmiau mawr, oherwydd y ffordd y mae diwydiant, masnach a'r byd hysbysebu wedi darlunio 'crac' neu 'hwy!' y penwythnos gyda'r gêm ei hun yn ddim ond rhan o'r 'package' cyfan. Onid yw hynny'n wir bellach am gêm rygbi Cymru yng Nghaerdydd?

Rheswm arall dros droi at y gêm estronol yw cyfraniad y teledu yn Iwerddon. Yr oedd llythyr diddorol yn yr *Irish Times* oddi wrth aelod o bwyllgor clwb hurling yn y gorllewin yn honni fod dirywiad y gêmiau traddodiadol yn cael ei adlewyrchu wrth gymharu rhaglenni teledu sy'n ymwneud â'r ddwy garfan. Darlunir y gêmiau traddodiadol fel trafodaethau gyda hen chwaraewyr, gan ail-ddangos gêmiau mawr o'r gorffennol. Ychydig iawn o sylw a roir i gêmiau lleol ac nid oes ymdrech i ddarlunio'r gêmiau fel rhai bywiog nac yn adlewyrchu bywiogrwydd, asbri ac elfen gymdeithasol y gêmiau hynny. Ond, mor wahanol yw hi

CRICED LLEOL

Mae eira wedi dychwelyd i gopaon Eryri, a'r gwynt a'r glaw yn chwipio i lawr Dyffryn Peris. Ydi, mae'r tymor criced ar ein gwarthaf. Drwy gyfrwng y lloeren mae'n dymor ddiwedd erbyn hyn. Yn dilyn y frwydr ffyrnig rhwng India'r Gorllewin ac Awstralia bydd gwŷr y Caribî yn ymweld â Phrydain yr haf hwn. Wedi'r gyflafan a brofodd Lloegr yn Awstrali — ac yn enwedig dylanwad Shane Warne — mae cryn alw am newid agwedd a phersonél yn nhîm Lloegr gan roi cyfle i'r ieuencid.

Y mae'r term 'ieuencid' yn ddiddorol i ni yn lleol. Yma yn Arfon, mae tri phrif dîm — ar wahân i'r colegau — sef Bangor, Bethesda a Fron Dinas. Ychydig o glybiau yw hyn o gofio'r nifer sylweddol sydd â diddordeb yn y gêm. Mae cyrsiau hyfforddi yn bodoli i'r oedran cynradd ac uwchradd. Gyda'r Cynghorau Datblygu Sirol mae



Delyth Evans o Fethel a gwblhaodd Marathon Llundain ar ei chynnyg cyntaf.

wledydd ac o wahanol gefndiroedd. Nid yw'r arian noddî wedi cyrraedd i mewn i gyd ond mae'n ffyddiog y bydd Cronfa Haematoleg a Chancr Bangor yn elw o oddeutu £1,500. Dymuna Delyth ddiolch i bawb a'i cefnogodd — yn enwedig y person di-enw a adawodd lond bag o geiniogau ar steipan ei drws. Yn y dyddiau 'loteraidd' hyn mae pob ceiniog yn cyfri i'n helusennau.

hefo'r gêm bêl-droed. Drwy gyfrwng teledu lloeren, a'r teledu daearol, boddîr yr ieuencid â gêmiau ac mae'r hysbysebu yn fywiog ac yn ddeniadol ynghyd â chyfranwyr ifancach sy'n siarad iaith yr ieuencid. Mae Jack Charlton yn eich taro bron bob tro y troiwch y swits. Mae'r rhaglenni hynny yn fywiog ac yn ymwneud â hyfforddi, ac mae yna raglen benodol ar Gynghrair Bêl-droed Iwerddon ar sianel RTE. Mae safon yno wedi gwella'n sylweddol.

Onid oes yna adlais o'n sefyllfa ni yma yng Nghymru? Yr un hen wynebau, yr un hen gêmiau, a'r un hen leisau. Beth yw safbwynt yr ifanc? Oes rhywun wedi ceisio ymchwilio i'r ffordd y gall teledu ddatblygu safon chwaraeon yng Nghymru, yn hytrach nag adlewyrchu? Ydi fformat undonog 'Tocyn Tymor' ar S4C yn gweithio? Ar wahân i sylwebaeth ar gêmiau, pa drafod chwaraeon sydd yna yn ystod yr wythnos pan mae gan bobl amser i wyllo a gwranddo? Gobeithio y gwireddir breuddwydion rhai pobl o weld radio lleol yn dod yma i Wynedd gan y credaf y gallai roi hwn sylweddol i ymwybyddiaeth pobol o chwaraeon lleol gan gryfhau eu diddordeb, er mwyn datblygu y chwaraeon hynny.

BERW'R CROCHAN

Pa chwaraewr snwcer o Fethel (Arfon) sydd wedi ennill dwy bencampwriaeth yn y Crochan (Crucible), Sheffield? Cewch yr ateb o dan 'Newyddion Bethel'.

sylfaen gadarn yn cael ei gosod. Erbyn hyn mae tîmau siron ar lefel o dan 12, 13, 15 a 17. Apeliar ar yr ieuencid sydd â diddordeb i gadw llygaid manwl yn eu hysgolion a chlybiau am wybodaeth ynglŷn â'r cyrsiau.

Y mae sefyllfa criced yn Arfon yn hollol wahanol i rygbi a phêl-droed. Mae'n ymddangos yng ngemâu'r gaeaf bod yna ormod o dimau ac nad oes digon o chwaraewyr o safon i gynnal cynifer o dimau.

Gyda'r cynghreiriau cenedlaethol ym myd rygbi mae'n broblem gynyddol i gael 'ymroddiad' gan aelodau i deithio i'r de bob yr ail wythnos. O'r herwydd gwelir tîmau gwan yn cynrychioli'r clybiau, a cheir y sgoriau chwerthinllyd a welwyd yn ddiweddar. Rhaid cyfaddef bod ambell i chwaraewr 'adref yn unig' yn bodoli yn ein clybiau criced hefyd. Mae clybiau Bangor a Bethesda yn chwarae yng Nghynghrair Criced Gogledd Cymru ar y Sadwrn a chlybiau Bangor a Fron Dinas yng Nghynghrair Gwynedd (sydd wedi gwella'i safon ers y tymor diwethaf) ar y Sul. Mae'r tri chlwb yn rhedeg tîmau ieuencid o dan 16 oed. Bu hyn yn wendid i raddau gan fod y clwb yn tueddu i ganolbwyntio ar garfan fechan o ieuencid a'r rhai hynny yn tueddu i fod tua'r 15-16 oed. Rhaid ceisio gwella safon hyfforddi fel nad ydym yn colli yr ieuencid yma wedi iddynt gyrraedd oedran 16, fel sydd wedi tueddu i ddiwydd ym myd pêl-droed lleol.

Clwb 'lleol' yr Eco, o ran traddodiad, yw Fron Dinas. Er fod si eu bod a'u bryd ar symud i gylch Llanberis i chwarae ym Montnewydd mae eu cartref o hyd.

Yn draddodiadol hefyd bu cysylltiad agos rhwng Ysgol Brynrefail a Chlwb Fron Dinas, gan fod nifer o athrawon yr Ysgol dros y blynyddoedd wedi bod yn chwarae i'r Clwb. Rwy'n siŵr y byddai'r Clwb yn falch o glywed gan unrhyw gricedwr ifanc o'r fro. Y captan eleni yw Harri Jones a gellir cysylltu ag o ar (01286) 677557. Gyda llaw, gêm gynta'r tymor newydd yw Fron Dinas yn croesawu Clwb Bangor, y pencampwr.

TLWS PÊL-DROED ECO'R WYDDFA

Cofiwch am y noson boblogaidd hon, ar faes Ysgol Gynradd Llanrug

NOS WENER, 19 MAI am 6 o'r gloch

Enwau'r tîmau (dau oedran) i'r Golgydd Chwaraeon cyn gynted â phosib.

Er bod y tîmau yn cael eu dewis gan reolwyr lleol RHAID i bob tîm pentref gynnwys chwaraewyr o'r YSGOL BENTREF hwnnw yn UNIG.

Codir tâl o £3 am bob tîm sy'n cystadlu — i'w dalu ar y noson.